




# Eich Gyrfa Iechyd

## Gwireddwch eich potensial gyda gyrfa yn GIG Cymru

***Yn Werth Chweil | Yn Bodloni | Yn Rhoi Boddhad***














GIG CYMRU
NHS WALES

# Croeso i Yrfaoedd GIG Cymru


## Wyddech chi...?

- Cymro oedd sylfaenydd y GIG, Aneurin Bevan
- Ni yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru
- Mae ein gwasanaethau yn weithredol trwy Gymru gyfan
- Rydym yn darparu gofal iechyd i'r 3 miliwn o bobl sy'n byw yn y wlad

## Amdanom ni

Pobol sy'n cyfri i ni… ac i wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud (helpu i wella ac achub bywydau), mae arnom angen pobl sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n credoau. Trwy wneud gwahaniaeth i'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu, mae ein pobl i gyd yn chwarae rôl hanfodol wrth gadw Cymru yn ffit ac iach.

Nid sôn am ein pobl glinigol yn unig yr ydym. Gyda dros 350 o yrfaoedd i ddewis o'u plith gallwch fod yn siŵr y bydd dewis eang o gyfleoedd a fydd yn heriol ac yn rhoi boddhad.






# Ein Gwasanaethau

**Mae ein Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn darparu'r gwasanaethau canlynol:**

- Darperir **gwasanaethau gofal cynradd** gan feddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill mewn canolfannau iechyd a meddygfeydd ar draws Cymru
- Darperir **gofal eilaidd** trwy wasanaethau ysbyty ac ambiwlans
- Darperir **gofal trydyddol** gan ysbytai sy'n trin mathau penodol o salwch, fel canser
- Fel arfer bydd gwasanaethau **gofal cymunedol** yn cael eu darparu mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol lleol a'u cyflenwi i ddefnyddwyr gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain

# Ein Pobl

Ein pobl sy'n gwneud GIG Cymru yn wych! Yn angerddol am yr hyn y maent yn ei wneud, mae gan ein holl bobl rôl bwysig i'w chwarae wrth ofalu am ddefnyddwyr gwasanaeth ac rydym yn chwilio am bobl o'r un meddylfryd sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n credoau.


| | Sefydliad | Gwefan |
|---|---|---|
| Byrddau Iechyd (BI) | BIP Abertawe Bro Morgannwg | wales.nhs.uk/sitesplus/863/hafan |
| | BIP Aneurin Bevan | wales.nhs.uk/sitesplus/866/hafan |
| | BIP Betsi Cadwaladr | wales.nhs.uk/sitesplus/861/hafan |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | billcaerdyddarfro.cymru.nhs.uk |
| | BIP Cwm Taf | cwmtaf.wales |
| | BIP Hywel Dda | wales.nhs.uk/sitesplus/862/hafan |
| | BIA Powys | biapowys.cymru.nhs.uk |
| Ymddiriedolaethau | **Sefydliad** | **Gwefan** |
| | Iechyd Cyhoeddus Cymru | wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan |
| | Ymddiriedolaeth GIG Felindre | velindre-tr.wales.nhs.uk/hafan |
| | Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | was-tr.wales.nhs.uk/Default.aspx?pageid=&lan=cy |
| Gwasanaethau | **Sefydliad** | **GWefan** |
| | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) | wales.nhs.uk/sitesplus/956/hafan |
| | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) | nwssp.wales.nhs.uk/hafan |

# Egwyddorion Craidd GIG Cymru

Mae rhai rolau yn golygu bod gennych gysylltiad uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth, ond mewn rhai eraill rydych yn rhan o rwydwaith cefnogi anferth sy'n hanfodol i gyflawni gofal iechyd ac atal salwch. Mae rhai swyddi mewn ysbytai, mae rhai eraill yn y gymuned. Mae rhai yn gofyn am y safonau academaidd uchaf, ond, i lawer o swyddi, mae cyflogwyr yn chwilio am frwdfrydedd, dyhead i ddysgu a'r gallu i weithio fel rhan o dîm.

Er mwyn ymgeisio am unrhyw swydd, naill ai yn y GIG neu mewn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau GIG, neu ar gyfer cwrs sy'n gysylltiedig ag iechyd, bydd angen i chi ddangos sut y mae gwerthoedd Egwyddorion Craidd GIG Cymru yn berthnasol yn eich holl waith o ddydd i ddydd.

**Egwyddorion Craidd GIG Cymru yw:**






















Mae ein Hegwyddorion Craidd yn disgrifio sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r ffordd yr ydym yn ei wneud yn seiliedig ar ymdeimlad o ddiben sy'n cael ei rannu gan bawb.

Mae'r chwe Egwyddor Craidd yn atgyfnerthu gwerthoedd ac ymddygiad ein sefydliad, sydd yn seiliedig ar y cysyniad gofal iechyd doeth; gan sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r safon uchaf posibl ym mhopeth yr ydym yn ei wneud:




**Darllenwch ragor am Egwyddorion Craidd GIG Cymru:**

**www.wales.nhs.uk/gigcymruamdanomni/egwyddorioncraiddgigcymru**

Yn ychwanegol, mae disgwyl hefyd i weithwyr GIG Cymru gefnogi eraill i ddysgu a datblygu. Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr newydd, myfyrwyr (rhai ar brofiad gwaith a lleoliadau cyrsiau) a chydweithwyr.

## 350 a mwy o Rolau

**Wyddech chi fod mwy na 350 o rolau gwahanol ym maes iechyd? Felly waeth beth yw eich sgiliau a'ch diddordebau rydych yn siŵr o ddod o hyd i rôl sy'n addas i chi!**

**Mae'r llyfryn hwn yn cynnig canllaw cyfleus i'r rolau ym maes iechyd. Nid yw ar unrhyw gyfrif yn rhestr lawn o swyddi proffesiynol na rolau, ond mae'n rhoi syniad i chi o'r nifer a'r amrywiaeth o ran y cyfleoedd sydd ar gael.**

**Am ragor o fanylion, ewch i:**
**www.weds.wales.nhs.uk/gyrfaoedd-gig-cymru**

# Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru

**Mae Llywodraeth Cymru, trwy GIG Cymru, yn cyllido addysg a hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau addysg gweithwyr iechyd proffesiynol; gellir gweld manylion y cyrsiau penodol yn: www.nwssp.wales.nhs.uk/comisiynu-a-chytundebu-addysg**

Mae cynllun bwrsariaeth lawn y GIG ar gael i breswylwyr y Deyrnas Unedig a dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (sydd wedi bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig am dair blynedd cyn i'r cwrs ddechrau) sy'n ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl gorffen eu rhaglen. Gall dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn preswylio yn y Deyrnas Unedig sy'n ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl gorffen eu rhaglen yn allu cael cyllid ar gyfer eu ffioedd dysgu yn unig ac ni fyddant yn gymwys i gael y Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru llawn.

**Mae Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn llawn yn cynnwys:**

- **cost ffioedd dysgu**
- **bwrsariaeth ar gyfer costau byw, gan gynnwys:**
  - » *grant £1,000 nad oes prawf modd ar ei gyfer*
  - » *bwrsariaeth gyda phrawf modd*
  - » *yn ychwanegol, rhoddir cefnogaeth i fyfyrwyr ar gyfer costau fel teithio, llety (tra byddant ar leoliad), Gofal Plant, Lwfans Myfyrwyr Anabl, Lwfans Dibynyddion a Lwfans Dysgu Rhieni*
- **Os byddwch yn gymwys, byddwch yn cael mynediad at fenthyciad myfyrwyr gostyngedig (yn amodol ar Reoliadau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr)**

Sylwer, nid yw unigolion sydd wedi graddio yn barod ac yn dilyn rhaglen cyn cofrestru, e.e. rhaglenni Ffisegwr Cyswllt, MSc/Diploma OR Nyrsio, Dip OR Dieteteg a Dip OR Therapi Galwedigaethol, yn gymwys i ymgeisio am fenthyciad myfyrwyr gostyngedig; ond, bydd ganddynt fynediad at bob elfen arall o Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

**Ni fydd** unigolion **nad ydynt yn teimlo** y gallant ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cwblhau eu rhaglen yn gymwys i dderbyn buddiannau Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru; ond, byddant yn dal i allu astudio yng Nghymru a byddant yn gallu cael y gefnogaeth ganlynol:

- **Bydd myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn cael mynediad at y pecyn cefnogi myfyrwyr sydd ar gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.**
- **Bydd myfyrwyr nad ydynt yn byw yng Nghymru yn parhau i fod yn gymwys i astudio yng Nghymru ond bydd raid iddynt gael cyllid o ffynonellau eraill; gall hyn gynnwys cyllid gan y corff cyllido perthnasol yn eu gwlad eu hunain neu gyllido eu hunain.**



Ar ôl i fyfyrwyr dderbyn cynnig am le i hyfforddi gan GIG Cymru gan ddarparwr y cytunir arno bydd angen iddynt benderfynu a ydynt am ymrwymo i weithio yng Nghymru cyn gwneud cais am naill ai Bwrsariaeth GIG Cymru neu'r pecyn cyllido myfyrwyr arferol.

**Gellir gweld rhagor o wybodaeth am Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ar wefan Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr: www.nwssp.wales.nhs.uk/myfyrwyr-newydd**




*"Rwyf yn gwirioneddol fwynhau bod yn Therapydd Galwedigaethol. Rwy'n gwerthfawrogi cael gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol lle mae gan bob proffesiwn ei rhan i'w chwarae ac rwy'n mwynhau'r sialensiau dyddiol yr wyf yn eu hwynebu. Rwy'n mwynhau'r amrywiaeth sydd yn fy swydd, yn gweithio yn yr ysbyty a hefyd yng nghartrefi pobl, a gweithio gyda grŵp amrywiol o gleifion ag amrywiaeth o gyflyrau ac anghenion. Mae'r swydd yn rhoi boddhad mawr."*

**ROBIN LOMAS: THERAPYDD GALWEDIGAETHOL**



MAXINE ROBERTS: CADW TŶ



# Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn

> Rydym wedi trefnu'r rolau mewn deuddeng categori, sy'n cael eu rhestru ar dudalen 10.

> Rhoddwyd cod lliw i bob categori i'w gwneud yn haws eu canfod.

> Rhestrir y rolau ym mhob categori yn nhrefn y wyddor.

> Rhestrir y rolau ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd yn ôl y llwybrau mynediad ac nid yn nhrefn y wyddor.

**Mae'r cofnodion i gyd yn cynnwys cipolwg o:**

disgrifiad o'r rôl

y lleiafswm o ran cymwysterau y bydd arnoch eu hangen i gyflawni'r rôl

y sgiliau/nodweddion y bydd arnoch eu hangen

manylion cyswllt i gael gwybod rhagor am y rôl

## Cyfleoedd gwaith, gan gynnwys prentisiaethau

**Gallwch chwilio am gyfleoedd gwaith a phrentisiaethau ar hyn o bryd ar nifer o wefannau:**

**Gellir gweld swyddi gwag yn y GIG yn:**

**www.jobs.nhs.uk/index_cy.html a www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru**

**Gellir gweld prentisiaethau yn y sector iechyd yn: www.jobs.nhs.uk/index_cy.html ac ams.careerswales.com**

*Hoffai GIG Cymru ddiolch i Health Education England am eu help wrth ddatblygu'r adnodd gyrfaoedd hwn.*

# Categorïau

**Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Iechyd (AHP)....................p.15**

Mae gweithwyr proffesiynol cysylltiol iechyd yn rhoi triniaeth ac yn helpu i adsefydlu oedolion a phlant sy'n wael, sydd ag anableddau neu anghenion arbennig i fyw bywyd mor llawn â phosibl. Maent yn rheoli eu baich gwaith eu hunain yn aml.

**Gwasanaethau Ambiwlans..............................................p.23**

Mae staff y gwasanaeth ambiwlans yn gweithio naill ai i'r gwasanaeth nad yw'n wasanaeth argyfwng (sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith cludo cleifion) neu'r gwasanaeth argyfwng.

**Hysbyseg Iechyd ......................................................p.23**

Yr arbenigwyr ar wybodaeth cleifion y mae meddygon, nyrsys ac eraill yn dibynnu arnynt i roi'r gofal gorau posibl. Y gweithwyr proffesiynol yma sydd hefyd yn rheoli systemau cyfrifiadurol sy'n cynnal y GIG i gyd.

**Gwyddor Gofal Iechyd a Fferylliaeth..................................p.35**

Mae gwyddonwyr gofal iechyd staff fferylliaeth yn helpu i atal, rhoi diagnosis a thrin salwch gan ddefnyddio eu gwybodaeth am wyddoniaeth a'u sgiliau technegol. Gallant ddefnyddio eu harbenigedd i helpu i achub bywydau a gwella gofal cleifion mewn rôl gefnogol neu trwy gysylltiad uniongyrchol â'r cleifion.

**Rheolwyr.................................................................p.35**

Rheolwyr y sector iechyd sy'n gyfrifol am y bobl, y cyllid, a darparu offer, adeiladau a gwasanaethau y mae ar y GIG eu hangen i gyflawni gofal iechyd yn effeithiol.

**Meddygol a Deintyddol................................................p.45**

Mae meddygon yn rhoi diagnosis ac yn trin salwch, gan weithio i atal salwch a gwella llesiant. Mae'r tîm deintyddol yn rhoi diagnosis ac yn trin amrywiaeth eang o broblemau sy'n effeithio ar y geg, y dannedd a'r deintgig, ac yn gweithio i hybu a chynnal iechyd y dannedd.



**Proffesiynau Cysylltiol Meddygol .....................................p.51**

Mae gweithwyr proffesiynau cysylltiol meddygol yn rhoi gofal i gleifion dan oruchwyliaeth meddyg. Mae hyn yn rhyddhau amser ychwanegol i feddygon ganolbwyntio ar broblemau mwy cymhleth y cleifion.

**Bydwreigiaeth...........................................................p.51**

Mae bydwragedd yn gweithio mewn cymunedau ac ysbytai. Mae eu rôl yn mynd ymhell tu hwnt i eni babanod; maent yn darparu gofal cyn geni ac ar ôl geni, yn cynghori, yn cefnogi ac yn addysgu rhieni newydd.

**Nyrsio ...................................................................p.51**

Mae nyrsys yn gweithio mewn ysbytai a'r gymuned i drin a gofalu am oedolion a phlant gwael ac sydd wedi eu hanafu, yn cefnogi eu triniaeth ac yn hyrwyddo iechyd da. Yn ogystal â nyrsio cleifion sydd â salwch corfforol, maent yn cefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

**Therapïau Seicolegol....................................................p.57**

Mae'r staff sy'n gweithio mewn therapïau seicolegol yn helpu pobl ymdopi â phroblemau mor amrywiol â chaethiwed i alcohol neu gyffuriau, anhwylderau bwyta, teulu yn chwalu neu brofedigaeth.

**Iechyd Cyhoeddus .......................................................p.57**

Mae staff sy'n gweithio yn y maes iechyd y cyhoedd yn diogelu a gwella iechyd a llesiant y cyhoedd ac yn lleihau anghyfartaledd iechyd. Mewn rhai rolau, byddwch yn gweithio yn uniongyrchol gyda'r cyhoedd ac mewn rhai eraill gall y cyswllt fod yn achlysurol neu brin.

**Tîm Gofal Iechyd Ehangach.............................................p.63**

Mae staff yn y tîm gofal iechyd ehangach yn darparu'r gwaith wrth gefn sydd bron rownd y cloc sydd ar bob sefydliad iechyd eu hangen i'w cadw i redeg. Mae gweithwyr cefnogi gofal iechyd yn darparu gwasanaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol i unigolion mewn amrywiaeth o leoliadau gofal. Maent yn cyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau wedi eu dirprwyo dan oruchwyliaeth briodol.

Categorïau a Gyrfaoeedd 13

# Pa swyddi sy'n cael eu cynnwys?

Disgrifir y swyddi canlynol yn y llyfryn hwn, wedi eu lliwio yn ôl y maes gwaith yn y byd iechyd.
Am restr fwy cynhwysfawr o rolau, ewch i: **www.gyrfaoeddgigcymru.com**

## Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Iechyd (AHP)

- Cynorthwyydd Gweithiwr Proffesiynol Cysylltiol Iechyd
- Dietegwr
- Ffisiotherapydd
- Orthoptydd
- Orthotydd
- Podiatrydd
- Prosthetydd
- Radiograffydd
- Therapydd Celf, Drama a Cherdd
- Therapydd Galwedigaethol
- Therapydd Iaith a Lleferydd
- Ymarferwr Adran Lawdriniaeth

## Y Gwasanaeth Ambiwlans

- Anfonwr Argyfwng Meddygol
- Cynorthwyydd Gofal Ambwlans
- Cynorthwyydd Gofal Brys
- Derbynnydd Galwadau (NHSDW/111)
- Derbynnydd Galwadau Gwasanaeth Argyfwng Meddygol 999

## Y Gwasanaeth Ambiwlans (Parhad)

- Derbynnydd Galwadau Gwasanaeth Cludo Teithwyr
- Parafeddyg

## Hysbyseg Iechyd

- Clerc Cofnodion Iechyd
- Codydd Clinigol
- Hyfforddwr TG
- Rheolwr Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
- Technegydd Cefnogi TGCh

## Gwyddor Gofal Iechyd a Fferylliaeth

- Ffotograffydd Clinigol
- Gweithiwr Cefnogi Gwyddor Gofal Iechyd
- Ymarferwr Gwyddor Gofal Iechyd
- Gwyddonydd Clinigol
- Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol
- Fferyllydd
- Technegydd Fferyllfa
- Rheolwr Gwasanaethau Diheintiedig / Gwasanaethau Dadlygru

## Rheoli

- Rheolwr Cyffredinol
- Rheolwr Cyllid

## Meddygol a Deintyddol

- Deintydd
- Glanweithydd Deintyddol a Therapydd Deintyddol
- Meddyg
- Nyrs Ddeintyddol
- Technegydd Deintyddol

## Proffesiynau Cysylltiol Meddygol

- Ffisegwr Cysylltiol
- Ymarferwyr Gofal Llawfeddygol

## Bydwreigiaeth

- Bydwraig
- Gweithiwr Cefnogi Mamolaeth

## Nyrsio

- Gweithiwr Cefnogi Nyrsio Gofal Iechyd
- Nyrs

## Therapïau Seicolegol

- Seicolegydd Ymarfer Cymwysedig
- Therapydd Seicolegol Dwys Iawn

## Iechyd Cyhoeddus

- Gweithiwr Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd
- Hyfforddwr Iechyd
- Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd

## Tîm Gofal Iechyd Ehangach

- Cadw Tŷ
- Clerc Ward
- Crefftwyr Medrus
- Cynorthwyydd Arlwyo
- Cynorthwyydd Golchdy
- Cynorthwyydd Personol
- Derbynnydd/Teleffonydd
- Garddwr
- Goruchwyliwr Cyfleusterau
- Gyrrwr
- Nyrs Feithrin
- Pensaer
- Porthor
- Rheolwr Arlwyo
- Staff Chwarae Iechyd
- Staff Cynnal a Chadw
- Staff Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS)
- Staff Storfeydd
- Ysgrifennydd Meddygol



*"Rwy'n hoffi gweithio i'r GIG oherwydd gall fy ngwaith fod yn heriol a chyffrous. Rwy'n cysylltu â gwahanol ddefnyddwyr gwasanaeth felly mae'n rhaid i mi feddwl yn gyflym ar yr eiliad. Mae llawer o gyfleoedd hefyd i ddysgu a datblygu i symud ymlaen yn y GIG.*

*Mae perthynas dda iawn hefyd gyda'm holl gydweithwyr, rydym yna bob amser i helpu ein gilydd."*

**TRACY HOOPER : DERBYNNYDD**

# GWEITHWYR PROFFESIYNOL CYSYLLTIOL IECHYD

Mae gweithwyr proffesiynol cysylltiol iechyd yn rhoi triniaeth ac yn helpu i adsefydlu oedolion a phlant sy'n wael, sydd ag anableddau neu anghenion arbennig i fyw bywyd mor llawn â phosibl. Maent yn rheoli eu baich gwaith eu hunain yn aml.

**Cynorthwyydd Gweithiwr Proffesiynol Cysylltiol Iechyd** .................. 16

**Dietegwr** .................. 16

**Ffisiotherapydd** .................. 16

**Orthoptydd** .................. 16

**Orthotydd** .................. 18

**Podiatrydd** .................. 18

**Prosthetydd** .................. 18

**Radiograffydd** .................. 18

**Therapydd Celf, Drama a Cherdd** .................. 20

**Therapydd Galwedigaethol** .................. 20

**Therapyddion Iaith A Lleferydd** .................. 20

**Ymarferwr Adran Lawdriniaeth** .................. 20

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Cynorthwywydd Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Iechyd Cynorthwyydd (AHP)** | Mae **CYNORTHWYWYR AHP** yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol, fel seicotherapyddion, radiograffyddion, pediatryddon a therapyddion iaith a lleferydd. Maent yn chwarae rôl hanfodol yn cefnogi gweithwyr cofrestredig i gael diagnosis, trin a rhoi gofal i unigolion sy'n defnyddio gwasan-aethau gofal iechyd. Enghraifft fach o'r llu o rolau sydd ar gael yn y maes hwn yw'r rhain. Bydd y rolau hyn i'w cael mewn ysbytai ac yn y gymuned. | Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond efallai y bydd cyflogwyr yn gofyn am rai TGAU gan gynnwys Saesneg a mathemateg (neu gyfatebol). Bydd dysgu yn y gwaith, sy'n addas i'ch rôl yn cael ei ddarparu. | Bydd angen i chi weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaeth, gan fedru dilyn cyfarwyddiadau yn effeithlon. Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i gadw cyfrinachedd yn hanfodol. | **DATBLYGU ADDYSG GIG CYMRU** www.nwssp.wales.nhs.uk/datblygu-addysg<br>**CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Dietegydd** | Mae **DIETEGWYR** yn trosi gwyddoniaeth maethiad yn gyngor am fwyd. Maent yn hyrwyddo iechyd da trwy weithio gyda phobl sydd ag anghenion dietegol arbennig, yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac yn addysgu gweithwyr iechyd proffesiynol. | Rhaid i Ddietegwyr gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. I wneud hynny, rhaid iddynt gael cymhwyster cymeradwy mewn dieteg ar lefel BSc, neu radd gyntaf mewn pwnc perthnasol a chymhwyster ôl radd cymeradwy mewn dieteg. | Bydd arnoch angen bod â diddordeb mewn gwyddoniaeth a bwyd a gallu cyfathrebu gyda phobl o bob rhan o'r gymuned. Mae'n rhaid i chi fedru esbonio materion cymhleth yn syml. | **CYMDEITHAS DIETEGWYR PRYDAIN** www.bda.uk.com<br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL** www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Ffisiotherapydd** | Mae **FFISIOTHERAPYDDION** yn helpu cleifion i adennill y gallu i symud a gollwyd oherwydd salwch, damwain neu eu bod yn heneiddio. | BSc mewn ffisiotherapi yn arwain at gymhwyster i ymgeisio i gofrestru yn broffesiynol gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Mae cyrsiau ôl raddedig hefyd i raddedigion sydd â gradd addas. | Bydd arnoch angen goddefgarwch, amynedd a chydymdeimlad. Rhaid i chi hefyd fedru ffurfio perthynas â chleifion o bob oed, eu teuluoedd neu ofalwyr a staff gwasanaethau cymdeithasol a meddygol eraill. | **CYMDEITHAS SIARTREDIG FFISIOTHERAPI** www.csp.org.uk<br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL** www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Orthoptydd** | Mae **ORTHOPTWYR** yn rhoi diagnosis ac yn trin problemau gweld o ran symudiad y llygaid a'u haliniad. Gallant hefyd sgrinio plant ysgol. | Gradd brifysgol dair neu bedair blynedd a chofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. | Byddwch am weithio gyda phobl a bydd gennych y gallu i gyfathrebu gyda chleifion o bob oed. Bydd arnoch angen manylder a chywirdeb yn eich gwaith. | **CYMDEITHAS ORTHOPTIG BRYDEINIG A GWYDDELIG** www.orthoptics.org.uk<br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL** www.hcpc-uk.org/cymru/ |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Orthotydd** | Mae **ORTHOTYDDION** yn darparu amrywiaeth o sblintiau, heyrn llawfeddygol ac esgidiau arbennig i helpu i symud, i gywiro anffurfiad a lliniaru anghysur. Maent yn gweithio gyda phobl o bob oed, o blant gyda pharlys ymenyddol i gleifion hŷn sydd angen esgidiau arbenigol. | BSc tair neu bedair blynedd amser llawn mewn prostheteg ac orthoteg a chofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Ar ôl cofrestru fel ymarferwr, gallwch ddewis arbenigo naill ai fel orthotydd neu brosthetydd. | Bydd arnoch angen amynedd a chywirdeb i wneud y mesuriadau manwl gywir sy'n effeithio ar gysur a gallu'r claf i symud. Bydd gennych hefyd y sgiliau cyfathrebu angenrheidiol i gysuro cleifion a thalent o ran dylunio technegol. | **CYMDEITHAS BRYDEINIG PROSTHETYDDION AC ORTHOTYDDION**<br>www.bapo.com<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Podiatrydd** | Mae **PODIATRYDDION** yn gweld cleifion o bob oed i roi diagnosis a thrin problemau ar waelod y goes. Mae'r rhain yn cynnwys dafadennau, anafiadau chwaraeon a dawns a phroblemau cylchrediad mewn cleifion sydd mewn perygl o orfod colli eu coes, fel y rhai sydd â diabetes. | BSc mewn podiatreg yn arwain at gymhwyster i ymgeisio i gofrestru yn broffesiynol gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. | Bydd arnoch angen y gallu i gyfathrebu â chleifion o bob oed o blant i'r henoed. Byddwch yn amyneddgar, yn llawn dealltwriaeth ac â llaw gadarn. | **CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.bapo.com<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Prosthetydd** | Mae **PROSTHETYDDION** yn rhoi'r fraich neu goes orau posibl i gleifion a anwyd hebddynt neu sydd wedi colli un. Byddant yn gweithio gyda chleifion a thechnegwyr ar bob cam o ddylunio'r prosthesis i helpu cleifion i addasu i fywyd gyda'r fraich neu goes newydd. | BSc tair neu bedair blynedd amser llawn mewn prostheteg ac orthoteg a chofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Ar ôl cofrestru fel ymarferwr, gallwch ddewis arbenigo naill ai fel prosthetydd neu orthotydd. | Bydd arnoch angen sgiliau creadigol a thechnegol i fesur a chreu breichiau a choesau sy'n edrych a theimlo mor naturiol â phosibl. Bydd arnoch hefyd angen amynedd a dealltwriaeth i weithio yn agos gyda chleifion a all fod wedi mynd trwy drawma. | **CYMDEITHAS BRYDEINIG PROSTHETYDDION AC ORTHOTYDDION**<br>www.bapo.com |
| **Radiograffydd** | Mae dau fath o radiograffydd. Mae **RADIOGRAFFYDDION DIAGNOSTIG** yn cyflawni'r technegau creu delweddau, fel pelydr-x, a ddefnyddir i helpu i gael diagnosis ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau. Mae **RADIOGRAFFYDDION THERAPIWTIG** yn gyfrifol am driniaeth ymbelydrol i gleifion cancr, ac am eu lles yn ystod y driniaeth. | Gradd gymeradwy mewn radiograffeg ddiagnostig neu therapiwtig a chofrestriad gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. | Bydd arnoch angen hyder i weithio gyda thechnoleg flaengar, a'r gallu i ddysgu sgiliau newydd ac addasu. Rhaid i chi fedru cyfathrebu yn dda gydag aelodau eraill o'r tîm. Mae radiograffyddion therapiwtig yn gweld y cleifion dros lawer o wythnosau ac mae angen iddynt fedru llunio perthynas dda â nhw. | **CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/<br><br>**CYMDEITHAS A CHOLEG Y RADIOGRAFFYDDION**<br>www.sor.org<br>*A*<br>www.radiographycareers.co.uk |

| | Disgrifiad o’r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Therapydd Celf, Drama a Cherdd** | Mae **THERAPYDDION CELF** yn defnyddio’r celfyddydau creadigol – celf, drama neu gerddoriaeth – i helpu cleifion sydd ag anawsterau corfforol, meddyliol neu emosiynol i fynegi eu hunain. Trwy’r cyfryngau creadigol hyn, maent yn helpu cleifion i ymadfer a’u llesiant cyffredinol. | Er mwyn dod yn therapydd celf bydd angen i chi fod â gradd er mwyn dilyn rhaglen diploma/meistr ôl-raddedig wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPS). Gellir dilyn y rhain trwy astudio yn llawn amser neu yn rhan-amser. Gall gweithwyr proffesiynol, fel athrawon neu seicolegwyr sydd yn dangos ymrwymiad i’r celfyddydau gweledol, hefyd gael eu hystyried i hyfforddi i fod yn therapyddion celf. | Rhaid i chi fod yn fedrus mewn cerddoriaeth, celf neu ddrama a gallu cysylltu’n dda â chleifion ag amrywiaeth o sialensiau corfforol, seicolegol ac emosiynol. | **CYMDEITHAS BRYDEINIG THERAPYDDION CELF**<br>www.baat.org<br><br>**CYMDEITHAS BRYDEINIG THERAPYDDION DRAMA**<br>www.badth.org.uk<br><br>**CYMDEITHAS BRYDEINIG THERAPI CERDD**<br>www.bamt.org<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Therapydd Galwedigaethol** | Mae **THERAPYDDION GALWEDIGAETHOL** yn helpu plant ac oedolion i oresgyn problemau corfforol, seicolegol neu gymdeithasol sy’n deillio o salwch neu anabledd, trwy ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn gallu ei gyflawni a’u galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl. | BSc neu ddiploma ôl radd mewn therapi galwedigaethol (y mae Lefel A neu gyfatebol, neu radd gyntaf berthnasol yn ofynnol ar eu cyfer) gan arwain at gymhwyster i ymgeisio i gofrestru gyda’r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. | Rhaid i chi fod yn amyneddgar, yn ddyfeisgar a defnyddio dull creadigol, ymarferol. Yn bennaf oll, bydd arnoch angen gweithio yn glos gyda phobl i’w helpu i fyw bywydau llawn sy’n rhoi boddhad mor annibynnol â phosibl. | **COLEG BRENHINOL Y THERAPYDDION GALWEDIGAETHOL**<br>www.rcot.co.uk<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Therapydd Iaith a Lleferydd** | Mae **THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD** yn gweithio gyda phobl o bob oed sydd â phroblemau llefaru, o floesgni ymhlith plant i gleifion hŷn sy’n cael anhawster yn dilyn strôc. | Gradd dair mlynedd trwy gwrs prifysgol wedi ei achredu, sy’n arwain at gofrestru gyda’r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. | Bydd arnoch angen sgiliau iaith, cyfathrebu a gwrando rhagorol, amynedd, dull tawel a’r tact i ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth, ar draws yr holl ystod o oedrannau, sydd yn aml â chywilydd o’u cyflwr. | **CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/<br><br>**COLEG BRENHINOL Y THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD**<br>www.rcslt.org |
| **Ymarferwr Adran Lawdriniaeth** | Mae **YMARFERWYR ADRAN LAWDRINIAETH** yn rhan bwysig o dîm y theatr lawdriniaeth, gan weithio gyda llawfeddygon, nyrsys theatr ac anesthetyddion i sicrhau bod pob llawdriniaeth mor ddiogel ac effeithiol â phosibl. | Gradd gymeradwy yn arferion adran lawdriniaeth, a chofrestriad gyda’r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Mae’r gofynion mynediad yn amrywio o brifysgol i brifysgol. | Byddwch yn gweithio mewn awyrgylch lawn pwysau ar driniaethau manwl a chymhleth, felly bydd angen i chi fod yn ddigynnwrf ac yn gallu canolbwyntio am gyfnodau hir. | **COLEG YMARFERWYR ADRAN LAWDRINIAETHAU**<br>www.codp.org.uk<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |



*"Doeddwn i erioed wedi ystyried swydd yn gweithio i'r GIG pan ddois i'n blymiwr gyntaf ond pan ddaeth y cyfle fe wnes i fynd amdani. Nid yn unig mae'n amgylchedd braf i weithio ynddo gyda sialensiau newydd a gwahanol bob dydd ond fe all hefyd droi swydd yn yrfa."*

**LEE WHILES: PLYMIWR**

# GWASANAETH AMBIWLANS

Mae staff y gwasanaeth ambiwlans yn gweithio naill ai i'r gwasanaeth nad yw'n wasanaeth argyfwng (sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith cludo cleifion) neu'r gwasanaeth argyfwng.

**Anfonwr Argyfwng Meddygol** ........ **24**

**Cynorthwyydd Gofal Brys** ........ **24**

**Cynorthwyydd Gofal Cleifion** ........ **24**

**Derbynnydd Galwadau (NHSDW/111)** ........ **26**

**Derbynnydd Galwadau Gwasanaeth Argyfwng Meddygol 999** ........ **26**

**Derbynnydd Galwadau Gwasanaeth Cludo Teithwyr** ........ **28**

**Parafeddyg** ........ **28**

# HYSBYSEG IECHYD

Yr arbenigwyr ar wybodaeth cleifion y mae meddygon, nyrsys ac eraill yn dibynnu arnynt i roi'r gofal gorau posibl. Y gweithwyr proffesiynol yma sydd hefyd yn rheoli systemau cyfrifiadurol sy'n cynnal y GIG i gyd.

**Clerc Cofnodion Iechyd** ........ **30**

**Codydd Clinigol** ........ **30**

**Hyfforddwr TG** ........ **30**

**Rheolwr Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** ........ **32**

**Technegydd Cefnogi TGCh** ........ **32**

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| Galwadau Gwasanaeth | **ANFONWYR ARGYFWNG MEDDYGOL** sy'n gyfrifol am anfon cerbyd argyfwng i ddigwyddiad mor gyflym ag sy'n bosibl a gyda chymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl. | Rhoddir hyfforddiant yn y swydd ac mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gofyn am addysg gyffredinol dda. | Bydd arnoch angen dull tawel, effeithlon yn yr hyn all fod yn sefyllfaoedd tyngedfennol. Bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu/ rhyngbersonol rhagorol. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| Cynorthwywydd Gofal Ambiwlans | Mae **CYNORTHWYWYR GOFAL AMBIWLANS** yn cludo cleifion i'r ysbyty a lleoliadau gofal eraill ac oddi yno ac maent yn rhan o'r gwasanaeth ambiwlans nad yw'n wasanaeth argyfwng. | Fel arfer bydd angen addysg gyffredinol dda a thrwydded yrru lân, (lleiafswm o drwydded yrru dosbarth B, C1/D1 yn ddymunol). | Rhaid i chi fod yn ffit yn gorfforol i'ch galluogi i godi, symud a gyrru pobl, llawer ohonynt yn fregus, yn ddiogel a chyfforddus. Rhaid i chi fod yn gyfrifol, yn amyneddgar a chadw yn dawel mewn argyfwng. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| Cynorthwywydd Gofal Brys | Mae **CYNORTHWYWYR GOFAL BRYS** yn rhoi gofal addas i gleifion gan sicrhau bod y cleifion yn cael eu cludo yn ddiogel ac yn briodol ac yn rhoi'r ymateb cyntaf mewn argyfwng. | Bydd arnoch angen lleiafswm o 5 TGAU neu gyfatebol a C1 ar eich trwydded yrru. | Bydd hefyd angen i chi fod â meddwl chwim a medru gwneud penderfyniadau, ond hefyd roi amgylchedd tawel a phwyllog i gleifion a pherthnasau.<br><br>Byddwch hefyd angen sgiliau cyfathrebu/rhyngbersonol ardderchog. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Derbynnydd Galwadau (NHSDW/111)** | Mae **DERBYNYDDION GALWADAU** yn cynnig gwasanaeth rheng flaen i ateb galwadau sy'n dod i mewn i Galw GIG Cymru/111 a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Yn gyfrifol am roi trefn blaenoriaeth ar symptomau clinigol fel y maent yn cael eu cyflwyno a throsglwyddo galwadau cleifion i'r ymatebwyr priodol. | Rhoddir hyfforddiant yn y swydd, ond bydd arnoch angen lleiafswm o 5 TGAU neu gyfatebol. | Bydd angen i chi gadw'n dawel mewn sefyllfaoedd anodd fel eich bod yn gallu cael y wybodaeth hanfodol gan y galwr yn gyflym a chywir a helpu i'w gysuro. Bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu/ rhyngbersonol rhagorol. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Derbynyddion Galwadau Gwasanaeth Argyfwng Meddygol 999** | Mae **DERBYNYDDION GALWADAU GWASANAETH ARGYFWNG MEDDYGOL 999** yn derbyn ac yn ymdrin yn effeithiol â galwadau am y Gwasanaethau Argyfwng Meddygol. Maent yn cael data perthnasol gan alwyr mewn modd proffesiynol, llawn cydymdeimlad, gan roi sicrwydd tawel a chyfarwyddiadau cyn i'r cerbyd gyrraedd o'r protocolau pan fydd angen hynny. Yn ychwanegol, mae gofyn i Dderbynnydd Galwadau Gwasanaeth Argyfwng Meddygol 999 gofnodi manylion yn gywir a rhoi'r wybodaeth ar y systemau Rheoli a Chyfathrebu sydd ar gyfrifiaduron, o fewn amseroedd sydd wedi eu cydnabod. Rhaid iddynt gyfathrebu yn effeithiol a chyfleu'r holl wybodaeth berthnasol i'r bobl berthnasol. | Rhoddir hyfforddiant yn y swydd, ond bydd arnoch angen lleiafswm o 5 TGAU neu gyfatebol. | Bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu/ rhyngbersonol rhagorol. Bydd arnoch angen rhoi sylw i fanylion a chadw cofnodion cywir. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| Derbynnydd Galwadau Gwasanaeth Cludo Teithwyr (heb fod yn argyfwng) | Mae gan **DDERBYNYDDION GALWADAU GWASANAETH CLUDO CLEIFION** rôl allweddol yn sicrhau bod cleifion, llawer ohonynt yn fregus ac mewn oed, yn cyrraedd eu hapwyntiadau iechyd yn ddiogel ac ar amser. | Mae rhai cyflogwyr yn gofyn am nifer benodol o TGAU neu gyfatebol. Mae eraill yn chwilio am addysg gyffredinol dda. | Bydd arnoch angen dull tawel, effeithlon dan bwysau a sgiliau cyfathrebu da. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| Parafeddyg | Mae **PARAFEDDYGON** yn aelodau uwch o griwiau ambiwlans damweiniau ac argyfyngau, yn rhoi gofal a thriniaeth cyn yr ysbyty i gleifion sydd naill ai yn ddifrifol wael neu wedi anafu. | Rhaid i Barafeddygon gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Er mwyn gwneud hyn rhaid i ymgeiswyr ddilyn cwrs sydd wedi ei gymeradwyo gan yr HCPS, naill ai yn llawn amser (mewn prifysgol) neu ymgeisio am swydd myfyriwr parafeddygol gydag ymddiriedolaeth ysbyty a chwblhau'r hyfforddiant yn rhan-amser. Fel arfer bydd angen TGAU a Lefel A ar gyfer cyrsiau llawn amser (neu gymwysterau cyfatebol). Rhaid i barafeddygon fod â thrwydded yrru addas. | Bydd raid i chi fod yn ffit yn gorfforol ac yn abl yn feddyliol i ymdrin ag amgylchedd llawn pwysau. Rhaid i chi allu cyfathrebu â phlant ac oedolion, gan gadw'n dawel hyd yn oed mewn sefyllfaoedd llawn straen. Rhaid i chi hefyd fod yn yrrwr hyderus. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Clerc Cofnodion Iechyd** | Mae **CLERCOD COFNODION IECHYD NEU GOFNODION MEDDYGOL** yn trefnu, canfod a chadw cofnodion meddygol cleifion fel y gellir eu defnyddio gan weithwyr iechyd proffesiynol i ofalu amdanynt, er enghraifft, mewn clinigau i gleifion allanol. | Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol, er y bydd yn debygol y bydd ar ymgeiswyr angen sgiliau cyfrifiadurol ac addysg gyffredinol dda. Mae prentisiaethau gweinyddu ar gael yn aml. Gweler tudalen 5 am wybodaeth gyffredinol am chwilio ac ymgeisio am brentisiaethau. | Bydd arnoch angen gallu cadw'n dawel dan bwysau, bod yn dda gyda phobl a'r gallu i gadw cyfrinachedd llwyr. | **SEFYDLIAD COFNODION IECHYD A RHEOLI GWYBODAETH**<br>www.ihrim.co.uk |
| **Codydd Clinigol** | Mae **CODWYR CLINIGOL** yn creu cofnod cywir o arhosiad claf yn yr ysbyty trwy gofnodi diagnosis ac ymyraethau fel cyfres o godau mewn llythrennau a rhifau ar gyfrifiadur. | Dim gofynion ffurfiol, ond mae angen addysg gyffredinol dda, gan gynnwys TGAU mathemateg a Saesneg neu gyfatebol, a rhaid i ymgeiswyr fod yn rhesymol o gyfarwydd â chyfrifiaduron. Rhoddir hyfforddiant yn y swydd a gall ymgeiswyr yn y pen draw ddilyn Cwrs Sylfaen Codwyr Clinigol. Gyda phrofiad, gall ymgeiswyr ymgeisio am y Cymhwyster Codio Clinigol Cenedlaethol. | Bydd angen i chi fod yn fanwl gywir a gallu cael gwybodaeth yn gyflym o nodiadau meddygol. Bydd meddwl chwilfrydig a mwynhau materion meddygol yn helpu, a bydd angen i chi fedru eistedd wrth gyfrifiadur a chanolbwyntio am gyfnodau hir o amser. | **SEFYDLIAD RHEOLI GWYBODAETH A RHEOLI COFNODION IECHYD**<br>www.ihrim.co.uk |
| **Hyfforddwr TG** | **HYFFORDDWYR TG** sy'n gyfrifol am hyfforddi amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol a staff gweinyddol mewn sgiliau cyfrifiadurol fel eu bod yn gallu defnyddio nifer o systemau gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol. | Yn debygol o fod yn rôl i rywun graddedig, a rhywun â chymwysterau hyfforddi a TGCh ffurfiol. | Bydd arnoch angen sgiliau rhyngbersonol a chyflwyno rhagorol, a'r gallu i rannu gwybodaeth gymhleth a thechnolegau i ddefnyddwyr cyfrifiaduron newydd a phrofiadol. Bydd angen i chi fod yn arbenigwr ar e-bost, y we a phecynnau Windows, bod yn dawel a gallu calonogi rhai nerfus fydd yn cael hyfforddiant. | **SEFYDLIAD DYSGU A PHERFFORMIAD**<br>learningandperformanceinstitute.com<br><br>**Y SEFYDLIAD HYFFORDDIANT A DYSGU GALWEDIGAETHOL (ITOL)**<br>www.itol.org |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Rheolwr Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** | **RHEOLWYR LLYFRGELLOEDD A GWYBODAETH** sy'n arwain datblygu gwasanaethau rheoli gwybodaeth ymddiriedolaeth – gan gynnwys llyfrgelloedd ffisegol a gwybodaeth a chylchgronau ar-lein – fel bod yr holl staff ac eraill yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen. | Gradd mewn rheoli llyfrgell a gwybodaeth (neu gymhwyster tebyg), ac efallai cymhwyster rheoli hefyd. Byddai peth profiad o reoli hefyd yn fanteisiol. | Bydd arnoch angen bod yn gallu eich ysgogi eich hun, yn hyderus ac yn meddwl ymlaen, gyda'r gallu i weithredu ar lefel strategol yn y sefydliad a threfnu adnoddau gwybodaeth fel bod y nifer fwyaf o bobl yn gallu eu defnyddio. | **SEFYDLIAD SIARTREDIG Y GWEITHWYR PROFFESIYNOL LLYFRGELLOEDD A GWYBODAETH**<br>www.cilip.org.uk |
| **Technegydd Cefnogi TGCh** | Mae **TECHNEGWYR CEFNOGI TGCH** yn gweithio fel rhan o'r tîm hysbyseg iechyd, yn dadansoddi a datrys gwallau cyfrifiadurol ac yn gosod cyfrifiaduron. | Gradd mewn pwnc perthnasol (e.e. TGCh) neu brofiad cyfatebol. Efallai y bydd angen cymhwyster gwasanaeth cwsmeriaid ar Lefel 3 QCF neu brofiad cyfatebol. I wneud y gwaith, fel arfer bydd yr ymgeiswyr yn cael hyfforddiant mewn cefnogi cyfrifiaduron Microsoft a systemau gweithredu. Weithiau mae prentisiaethau mewn rolau yn gysylltiedig â TG. Gweler tudalen 5 am wybodaeth gyffredinol am chwilio ac ymgeisio am brentisiaethau. | Bydd arnoch angen brwdfrydedd, gweithio yn dda mewn tîm a gallu gweithio yn effeithlon mewn amgylchedd prysur iawn. | **SEFYDLIAD SIARTREDIG TG**<br>www.bcs.org<br><br>**CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html |



*"Cefnogi'r cleifion a'u teuluoedd gyda'r daith o'r ysbyty adref a sicrhau y caiff pob penderfyniad ei wneud er budd gorau'r cleifion yw'r hyn rydw i'n hoffi fwyaf am fy swydd."*

**KAREN STACEY: NYRS CYDLYNU RHYDDHAU O YSBYTY**

# GWYDDOR GOFAL IECHYD A FFERYLLIAETH

Mae gwyddonwyr gofal iechyd a staff fferylliaeth yn helpu i atal, rhoi diagnosis a thrin salwch gan ddefnyddio eu gwybodaeth am wyddoniaeth a'u sgiliau technegol. Gallant ddefnyddio eu harbenigedd i helpu i achub bywydau a gwella gofal cleifion mewn rôl gefnogol neu trwy gysylltiad uniongyrchol â'r cleifion.

**Ffotograffydd Clinigol** ........ 36

**Gweithiwr Cefnogi Gwyddor Gofal Iechyd** ........ 36

**Ymarferwr Gwyddor Gofal Iechyd** ........ 36

**Gwyddonydd Clinigol** ........ 38

**Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol** ........ 38

**Fferyllydd** ........ 38

**Technegydd Fferyllfa** ........ 40

**Rheolwr Gwasanaethau Diheintiedig / Gwasanaethau Dadlygru** ........ 40

# RHEOLI

Rheolwyr y sector iechyd sy'n gyfrifol am y bobl, y cyllid, ac am ddarparu offer, adeiladau a gwasanaethau y mae ar y GIG eu hangen i gyflawni gofal iechyd yn effeithiol.

**Rheolwr Cyffredinol** ........ 42

**Rheolwr Cyllid** ........ 42

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Ffotograffydd Clinigol** | Rôl **FFOTOGRAFFYDD CLINIGOL** yw cynhyrchu cofnod gweledol cywir o gyflwr meddygol defnyddwyr gwasanaeth. Gall ffotograffau gael eu tynnu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys stiwdios, clinigau, wardiau a theatrau llawdriniaethau. Mae ffotograffwyr clinigol hefyd yn cyfrannu graffeg ar gyfer gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth, astudiaethau ymchwil a chyhoeddiadau eraill. | Gradd mewn ffotograffiaeth, neu bwnc cyfryngol cyfatebol, neu leiafswm o ddwy flynedd o brofiad gwaith. Yna bydd angen i chi gyflawni tystysgrif ôl raddedig mewn ffotograffiaeth glinigol (a ddilynir fel arfer o bell gan weithio mewn swydd fel darlunydd meddygol dan hyfforddiant). Ar ôl cwblhau'r cwrs gall y rhai llwyddiannus gofrestru gyda'r Sefydliad Darlunwyr Meddygol a chofrestru yn broffesiynol. | Bydd arnoch angen deall o anatomi, yn ogystal ag arbenigedd technegol a sgiliau artistig blaengar. Byddwch yn gyfathrebwr da, yn gallu bod yn llawn cydymdeimlad a phroffesiynol wrth ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, a byddwch yn barod i dderbyn llawer o gyfrifoldeb. | **SEFYDLIAD Y DARLUNWYR MEDDYGOL**<br>www.imi.org.uk |
| **Gweithiwr Cefnogi Gwyddor Gofal Iechyd** | Mae **GWEITHWYR CEFNOGI GWYDDOR GOFAL IECHYD** yn gweithio ochr yn ochr â gwyddonwyr gofal iechyd fel gwyddonwyr biofeddygol, awdiolegwyr a pheirianwyr clinigol. Maent yn chwarae rôl hanfodol yn cynorthwyo i gael diagnosis, trin a rhoi gofal i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Enghraifft fach o'r llu o rolau sydd ar gael yn y maes hwn yw'r rhain. Bydd rhai o'r rolau gweithwyr cefnogi yma i'w gweld yn labordai ysbytai ac eraill mewn lleoliadau ysbyty a chymunedol. | Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond mae TGAUau, gan gynnwys Saesneg a mathemateg (neu gyfatebol) yn ddymunol. Bydd dysgu yn y gwaith, sy'n addas i'ch rôl yn cael ei ddarparu. | Bydd angen i chi weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaeth, gan fedru dilyn cyfarwyddiadau yn effeithlon.<br><br>Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i gadw cyfrinachedd yn hanfodol. | **YSGOL GENEDLAETHOL GWYDDOR GOFAL IECHYD**<br>www.nshcs.hee.nhs.uk/careers-in-healthcare-science<br><br>**DATBLYGU ADDYSG GIG CYMRU**<br>www.nwssp.wales.nhs.uk/datblygu-addysg<br><br>**CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Ymarferwr Gwyddor Gofal Iechyd** | Mae **YMARFERWYR GWYDDOR GOFAL IECHYD** yn rhan hanfodol o'r tîm gofal iechyd. Mae amrywiaeth mawr o feysydd gwyddonol y maent yn gweithio ar eu traws, rhai rolau yn gweithio yn y gwasanaethau labordy ac eraill yn gweithio yn uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth. Gall y rolau gynnwys gwyddonydd biofeddygol, awdioleg a pheirianneg glinigol. | Mae ymarferwyr gwyddor gofal iechyd yn dilyn gradd BSc (anrhydedd) israddedig, trwy raglen hyfforddi ymarferwyr (PTP), neu lwybr cyfatebol trwy'r Academi Gwyddor Gofal Iechyd. | Bydd arnoch angen bod yn frwdfrydig am wyddoniaeth a gallu yn y maes. Bydd angen i chi weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaeth. Bydd arnoch angen gallu i gynllunio a threfnu eich baich gwaith.<br><br>Mae sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol. | **YSGOL GENEDLAETHOL GWYDDOR GOFAL IECHYD**<br>www.nshcs.hee.nhs.uk/careers-in-healthcare-science<br><br>**ACADEMI GWYDDOR GOFAL IECHYD**<br>www.ahcs.ac.uk<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Gwyddonydd Clinigol** | Mae **GWYDDONWYR CLINIGOL** yn ymwneud ag amrywiaeth o swyddogaethau gwyddonol a chlinigol sy'n gofyn llawer. Mae gwyddonwyr clinigol yn dadansoddi, dehongli a chymharu dewisiadau ymchwiliol a chlinigol. Gall hyn gynnwys penderfyniadau clinigol i gefnogi triniaethau defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn cychwyn a chyfrannu at weithgareddau ymchwil a datblygu. | Gradd wyddonol berthnasol (2:1 o leiaf) ac yna swydd dair blynedd yn dilyn rhaglen Meistr wedi ei hachredu, naill ai trwy Raglen Hyfforddi Gwyddonwyr y GIG neu lwybr cyfatebol trwy'r Academi Gwyddor Gofal Iechyd. | Yn ychwanegol at y sgiliau a'r nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer ymarferwyr, bydd arnoch angen cyfuno dull gwyddonol ar lefel uchel iawn a sgiliau cyfathrebu da.<br><br>Bydd angen i chi roi gwasanaeth cyflym, effeithiol i gefnogi trin a rheoli defnyddwyr gwasanaeth. | **YSGOL GENEDLAETHOL GWYDDOR GOFAL IECHYD**<br>www.nshcs.hee.nhs.uk/careers-in-healthcare-science<br><br>**ACADEMI GWYDDOR GOFAL IECHYD**<br>www.ahcs.ac.uk<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol** | Mae **GWYDDONWYR CLINIGOL YMGYNGHOROL** yn arwain, rheoli a datblygu gwasanaethau yn y maes gwyddor gofal iechyd. | Bydd angen i chi fod yn wyddonydd clinigol profiadol gyda gradd Feistr berthnasol. Byddwch yn cael eich cefnogi i ddilyn PhD yn eich maes, naill ai trwy raglen hyfforddi gwyddonwyr arbenigol uwch (HSST) neu lwybr cyfatebol trwy'r Academi Gwyddorau Gofal Iechyd. | Yn ychwanegol at y sgiliau a'r nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer rolau gwyddonwyr clinigol, bydd angen i chi fod wedi datblygu sgiliau arwain a rheoli.<br><br>Bydd angen i chi fod yn flaengar a chreadigol yn eich ffordd o feddwl, ac yn effeithiol wrth gyfleu eich syniadau i eraill. | **YSGOL GENEDLAETHOL GWYDDOR GOFAL IECHYD**<br>www.nshcs.hee.nhs.uk/careers-in-healthcare-science<br><br>**ACADEMI GWYDDOR GOFAL IECHYD**<br>www.ahcs.ac.uk<br><br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Fferyllydd** | Mae **FFERYLLWYR** yn arbenigwyr mewn meddyginiaethau a'r defnydd ohonynt. Maent yn helpu pobl i ddefnyddio meddyginiaethau yn ddiogel a chadw yn iach am fwy o amser. Mae fferyllwyr yn cynghori gweithwyr iechyd proffesiynol sut i ddewis y meddyginiaethau gorau i bobl a sut i'w rhagnodi a'u rhoi i gael y canlyniad a ddymunir. Yn aml bydd fferyllwyr wedi eu hyfforddi i ragnodi meddyginiaethau yn annibynnol. | Mae'r radd Meistr Fferylliaeth yn gwrs llawn amser pedair blynedd fel arfer. Bydd y graddedigion wedyn yn dilyn rhaglen hyfforddi blwyddyn i ddatblygu eu harfer ac yn cael asesiad cofrestru i ymuno â Chofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Mae nifer fechan o brifysgolion yn cynnwys y flwyddyn ymarferol mewn cwrs gradd pum mlynedd. | Proffesiwn ar sail gwyddoniaeth yw fferylliaeth lle bydd angen i chi fod â diddordeb mewn cemeg, ffisioleg yn ogystal â diddordeb mewn rhoi cyngor ar ofal iechyd. Bydd arnoch hefyd angen bod yn ofalgar, yn dda gyda phobl ac yn gallu gweithio yn ddigymell yn ogystal â gweithio yn effeithiol mewn tîm. | **CYNGOR FFERYLLOL CYFFREDINOL**<br>www.pharmacyregulation.org<br><br>**Y GYMDEITHAS FFERYLLOL FRENHINOL**<br>www.rpharms.com |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Technegydd Fferyllfa** | Mae **TECHNEGWYR FFERYLLFA** yn aelodau medrus o dîm y fferyllfa sy'n rheoli cyflenwi meddyginiaethau. Maent yn gweithio gyda fferyllwyr a thimau gofal iechyd i sicrhau bod pobl yn deall sut i gymryd eu meddyginiaethau yn ddiogel a sut i gadw'n iach. | Rhaid i dechnegwyr fferyllfa ddilyn rhaglen hyfforddi ar sail gwybodaeth a chymhwysedd dan oruchwyliaeth fferyllydd neu dechnegydd fferyllfa. Yna bydd raid iddynt gofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol. | Bydd raid i chi fod â diddordeb yng ngweithredoedd meddyginiaethau yn y corff dynol a'r defnydd ohonynt ac mewn rhoi cyngor ar ofal iechyd. Bydd arnoch angen bod yn ofalgar, yn dda gyda phobl ac yn gallu gweithio yn ddigymell yn ogystal â gweithio yn effeithiol mewn tîm. | **CYNGOR FFERYLLOL CYFFREDINOL**<br>www.pharmacyregulation.org<br><br>**CYMDEITHAS TECHNEGWYR FFERYLLFA**<br>www.aptuk.org |
| **Gwasanaethau Diheintiedig** | **RHEOLWYR GWASANAETHAU DIHEINTIEDIG** (a elwir weithiau yn rheolwyr gwasanaeth dadlygru) sy'n gyfrifol am y cyflenwadau diheintiedig angenrheidiol ar gyfer gofalu am gleifion ac am sicrhau bod offer meddygol y gellir ei ail ddefnyddio yn cael eu diheintio neu eu dadlygru. Bydd uwch reolwyr yn gyfrifol am staff a chyllidebau yn y gwasanaeth dadlygru y maent yn ei reoli. | Yn nodweddiadol bydd angen i uwch reolwyr fod â gradd ôl raddedig neu lefel gyfatebol o wybodaeth a sawl blwyddyn o brofiad o weithio mewn gwasanaethau dadlygru ar lefelau is. | Bydd angen i chi roi sylw manwl gywir i fanylion a gallu trwytho eraill i fod felly. | **SEFYDLIAD GWASANAETHAU DADLYGRU**<br>www.idsc-uk.co.uk |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Rheolwr Cyffredinol** | Mae **RHEOLWYR CYFFREDINOL** yn cyflawni rôl hanfodol, yn sicrhau bod ysbyty, gwasanaeth, neu adran yn cael ei rhedeg yn effeithlon a bod cleifion yn derbyn y gofal gorau posibl. | Rhoddir anogaeth i staff gofal iechyd presennol sydd â phrofiad priodol i ymgeisio am swyddi gwag. Mae gan Gynllun Rheolaeth Cyffredinol Graddedigion GIG Cymru hefyd ddewis rheolaeth gyffredinol, sy'n cynnig cyfleoedd i hyfforddi ar gyfer y swyddi uchaf un. | Bydd arnoch angen sgiliau trefnu, cyfathrebu a negodi rhagorol. Byddwch yn siaradwr cyhoeddus hyderus ac yn gallu gweithio gyda phobl o bob cefndir gan gynnwys cleifion, clinigwyr a'r wasg. | **CYNLLUN RHEOLI CYFFREDINOL GIG CYMRU**<br>www.graduates.wales.nhs.uk |
| **Rheolwr Cyllid** | **RHEOLWYR CYLLID** sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyllid y GIG yn cael ei ddyrannu yn briodol a bod cyfrif amdano.<br><br>Yn ogystal â helpu ysbytai ac adrannau i reoli eu cyllidebau, maent yn gweithio'n glos gyda staff clinigol a rheolwyr cyffredinol i'w helpu i wneud penderfyniadau, datblygu gwasanaethau a chyflawni'r gwerth gorau i gleifion a threthdalwyr. | Efallai y gall staff GIG sy'n gweithio mewn timau cyllid gael y cyfle i weithio tuag at gymwysterau technegol a ddyfernir gan y Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu, neu gymwysterau proffesiynol fel y rhai sy'n cael eu cydnabod gan y Pwyllgor Ymgynghorol Cyrff Cyfrifyddu. Mae gan Gynllun Hyfforddi Rheolaeth Ariannol i Raddedigion GIG Cymru hefyd gyfleoedd i ddatblygu sgiliau rheoli ariannol ac arwain wrth astudio am gymhwyster proffesiynol. | Bydd angen i chi fod yn fanwl gywir, yn rhifog ac yn rhoi sylw mawr i fanylion, a gallu dadansoddi, dehongli a gweithredu ar wybodaeth gymhleth. Bydd angen i chi fod yn aelod da o dîm ac yn gyfathrebwr effeithiol, ac am weithio gydag eraill i wella gwasanaethau a chynyddu gwerth. | **YMWELWCH Â GWEFAN ACADEMI GIG CYMRU AM WYBODAETH AM ROLAU AR LEFEL MYNEDIAD A CHYNLLUN HYFFORDDI RHEOLAETH ARIANNOL GIG CYMRU**<br>www.financeacademy.wales.nhs.uk/hafan<br><br>**CYMDEITHAS Y TECHNEGWYR CYFRIFYDDU**<br>www.aat.org.uk<br><br>**PWYLLGOR YMGYNGHOROL CYRFF CYFRIFYDDU**<br>www.ccab.org.uk |




*"Rwy'n mwynhau gweithio i'r GIG fel Ffisiotherapydd Plant gan ei fod mor amrywiol. Fyddai fyth yn gwneud yr un peth ac rwy'n cael 'chwarae' gyda'r plant fel rhan o'u therapi."*

**ELIZABETH WARMISHAM: FFISIOTHERAPYDD PEDIATRIG**

# MEDDYGOL A DEINTYDDOL

Mae meddygon yn rhoi diagnosis ac yn trin salwch, gan weithio i atal salwch a gwella llesiant. Mae'r tîm deintyddol yn rhoi diagnosis ac yn trin amrywiaeth eang o broblemau sy'n effeithio ar y geg, y dannedd a'r deintgig, ac yn gweithio i hybu a chynnal iechyd y dannedd.

**Deintydd** ........ 46

**Glanweithydd Deintyddol a Therapydd Deintyddol** ........ 46


**Meddyg** ........ 48

**Nyrs Ddeintyddol** ........ 48

**Technegydd Deintyddol** ........ 48

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Deintydd** | **DEINTYDDION** sy'n arwain y tîm gofal deintyddol. Maent yn rhoi diagnosis o broblemau, yn dynodi triniaethau, yn cyflawni llawfeddygaeth ddeintyddol ac yn cynghori cleifion. Mae rhai yn gweithio mewn practis ar y stryd fawr, mae eraill yn gweithio mewn ysbytai neu leoliadau cymunedol. | Mae angen tair Lefel A dda iawn (gan gynnwys cemeg), neu gymhwyster ar lefel gyfatebol i fynd ar gwrs gradd llawfeddygaeth ddeintyddol a gymeradwywyd. Mae rhai ysgolion deintyddol yn rhedeg blwyddyn rag baratoadol i ymgeiswyr sydd â phynciau nad ydynt yn wyddonol ac mae nifer fechan o gyrsiau i raddedigion hefyd ar gael. Rhaid i ddeintyddion gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Rhaid i chi fod yn hyderus, gyda safonau academaidd uchel a bod yn fedrus â'ch dwylo. Bydd angen i chi ddatblygu sgiliau diagnostig, clinigol a chymdeithasol rhagorol. | **CYMDEITHAS DDEINTYDDOL PRYDAIN**<br>www.bda.org<br><br>**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**<br>www.gdc-uk.org |
| **Glanweithydd Deintyddol a Therapydd Deintyddol** | **MAE GLANWEITHYDDION DEINTYDDOL** yn gweithio i gadw dannedd a deintgig yn iach, gan gynnwys tynnu cen a gloywi dannedd.<br><br>Mae **THERAPYDDION DEINTYDDOL** yn cyflawni triniaethau syml fel llenwi dannedd a'u tynnu, i blant a phobl hŷn a'r rhai ag anghenion arbennig fel arfer. Mae glanweithyddion a therapyddion yn hyrwyddo iechyd y geg, gan addysgu pobl am lendid y dannedd. | Rhaid i lanweithyddion a therapyddion gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i weithredu a bydd ar ymgeiswyr angen cymhwyster wedi ei gymeradwyo gan y GDC. Cynigir y rhain ar lefel gradd a diploma mewn hylendid dannedd a/neu therapi deintyddol a gwyddorau iechyd y geg. Bydd ar ymgeiswyr angen pump TGAU A-C (neu gymwysterau cyfatebol) i fynd ar gwrs, gan gynnwys Saesneg ac un gwyddoniaeth, a naill ai dwy Lefel A, neu gymhwyster nyrsio deintyddol cydnabyddedig. | Rhaid i chi fod yn dda eich llaw, yn gallu gweld yn dda a gweld lliwiau yn glir. Byddwch yn cael cysylltiad uniongyrchol â chleifion, felly mae sgiliau cyfathrebu a dull cyfeillgar yn hanfodol. | **CYMDEITHAS BRYDEINIG GLENDID A THERAPI DEINTYDDOL**<br>www.bsdht.org.uk<br><br>**CYMDEITHAS BRYDEINIG THERAPYDDION DEINTYDDOL**<br>www.badt.org.uk<br><br>**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**<br>www.gdc-uk.org |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Meddyg** | Mae mwy na 60 o feysydd arbenigol gwahanol y gall **MEDDYGON** weithio ynddynt. Mae'r rhain yn cynnwys meddygaeth argyfwng, meddygon teulu, seiciatreg, radioleg, obstetreg a gynaecoleg, patholeg, anaestheteg, paediatreg a llawfeddygaeth, ac arbenigeddau meddygol yn cynnwys dermatoleg, gastroenteroleg, meddygaeth niwclear, adsefydlu a niwroleg. | Mae safonau academaidd uchel yn hanfodol i fynd i mewn i ysgol feddygaeth. Mae amrywiaeth eang o TGAU graddau uchel, a 3 Lefel A neu gyfatebol (yn cynnwys cemeg a gwyddoniaeth arall neu fathemateg fel arfer) yn ofynnol yn nodweddiadol. Gall ymgeiswyr heb Lefel A/gyfatebol mewn gwyddoniaeth wneud cais am raddau meddygol gyda blwyddyn ychwanegol ac mae graddau ar gyfer graddedigion. Ar ôl yr ysgol feddygaeth, mae dau gam arall - hyfforddiant sylfaenol, yna hyfforddiant arbenigol yn y maes y maent yn dewis arbenigo ynddo. | Byddwch yn rhan o dîm pa bynnag arbenigedd y byddwch yn gweithio ynddo. Bydd arnoch angen llu o sgiliau gan gynnwys bod yn dda am ddadansoddi a rhesymu, rheoli amser, arweinyddiaeth, sgiliau cyfathrebu rhagorol, meddwl chwilfrydig, dull rhesymegol a'r gallu i ymdopi dan bwysau. | **Y GYMDEITHAS FEDDYGOL BRYDEINIG**<br>www.bma.org.uk<br><br>**Y CYNGOR MEDDYGOL CYFFREDINOL**<br>www.gmo-uk.org |
| **Nyrs Ddeintyddol** | Mae **NYRSYS DEINTYDDOL** yn cynorthwyo deintyddion, yn rhoi offer iddynt, yn cymysgu deunyddiau ac yn cymryd nodiadau, ac yn helpu i ofalu am gleifion yn ystod y driniaeth. | Rhaid i nyrsys deintyddol gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae nifer o lwybrau i gofrestru ac fel arfer bydd ar ymgeiswyr angen rhywfaint o gymwysterau TGAU ar gyfer cyrsiau rhan-amser, ac efallai y bydd arnynt angen cymwysterau Lefel A neu gymwysterau eraill ar lefel 3 ar gyfer rhai cyrsiau llawn amser. | YBydd angen i chi ymateb yn gyflym i geisiadau deintydd, ac i ymdrin ag offer cymhleth a chymysgu ychydig iawn o ddeunydd yn gywir. Mae'n hanfodol dangos cydymdeimlad â chleifion. | **CYMDEITHAS BRYDEINIG NYRSYS DEINTYDDOL**<br>www.badn.org.uk<br><br>**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**<br>www.gdc-uk.org |
| **Technegydd Deintyddol** | Mae **TECHNEGWYR DEINTYDDOL** yn gwneud offer deintyddol, fel corynau, pontydd a dannedd gosod, yn ôl cyfarwyddyd deintydd neu feddyg. | Bydd ar ymgeiswyr angen pump TGAU A-C neu gyfatebol a dwy Lefel A, neu gymhwyster nyrsio deintyddol cydnabyddedig yn genedlaethol. Rhaid i therapyddion deintyddol gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC). I wneud hynny, bydd arnoch angen diploma neu radd mewn therapi deintyddol neu therapi deintyddol a glendid wedi eu cymeradwyo gan y GDC. | Bydd arnoch angen gallu gweithio yn fanwl iawn, a bod â gallu technegol, gwaith llaw ac artistig. Bydd arnoch angen gallu gweld yn dda, bod yn drwyadl iawn a gweithio yn dda mewn tîm. | **CYMDEITHAS BRYDEINIG TECHNOLEG DDEINTYDDOL GLINIGOL**<br>www.bacdt.org.uk<br><br>**CYMDEITHAS Y TECHNOLEGWYR DEINTYDDOL**<br>www.dta-uk.org<br><br>**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**<br>www.gdc-uk.org |



*"Gadewais yr ysgol yn 18 oed a dechrau gweithio i'r GIG yn syth bron. Roedd fy mam yn ysgrifenyddes feddygol yn ac roeddwn yn hoff iawn o'r syniad o'i gwaith hi ac felly penderfynais ddilyn yn ôl ei throed. Rydw i wedi cychwyn cwrs Gweinyddu Busnes a bydd yn gadael i mi ddatblygu fy ngwybodaeth yn yr amgylchedd gwaith, trwy amrywiaeth o gyrsiau eraill sy'n cael eu cynnig i ni. Fe fyddwn i'n bendant yn argymell gweithio i GIG CYMRU"*

**BIANCA JONES:**
**YSGRIFENYDDES FEDDYGOL GYNORTHWYOL**

# PROFFESIYNAU MEDDYGOL CYSYLLTIOL

Mae gweithwyr proffesiynol meddygol cysylltiol yn rhoi gofal i gleifion dan oruchwyliaeth meddyg. Mae hyn yn rhyddhau amser ychwanegol i feddygon ganolbwyntio ar broblemau mwy cymhleth y cleifion.

**Ffisegwr Cysylltiol** ..... 52

**Ymarferwyr Gofal Llawfeddygol** ..... 52

# BYDWREIGIAETH

Mae bydwragedd yn gweithio mewn cymunedau ac ysbytai. Mae eu rôl yn mynd ymhell tu hwnt i eni babanod; maent yn darparu gofal cyn geni ac ar ôl geni, yn cynghori, yn cefnogi ac yn addysgu rhieni newydd.

**Bydwraig** ..... 52

**Gweithiwr Cefnogi Mamolaeth** ..... 52

# NYRSIO

Mae nyrsys yn gweithio mewn ysbytai a'r gymuned i drin a gofalu am oedolion a phlant gwael ac sydd wedi eu hanafu, yn cefnogi eu triniaeth ac yn hyrwyddo iechyd da. Yn ogystal â nyrsio cleifion sydd â salwch corfforol, maent yn cefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

**Gweithiwr Cefnogi Nyrsio Gofal Iechyd** ..... 54

**Nyrs** ..... 54

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Ffisegwr Cysylltiol** | **MAE FFISEGWYR CYSYLLTIOL** yn cefnogi meddygon wrth roi diagnosis a thrin cleifion. Maent yn gweithio mewn practis meddyg teulu ac ysbytai. | Fel arfer mae'n ofynnol cael gradd yn gysylltiedig â gwyddoniaeth i fynd ar y cwrs hyfforddi ôl raddedig a gynigir gan nifer o brifysgolion. | Bydd arnoch angen dangos eich potensial academaidd ar gyfer yr hyfforddiant, profiad o weithio gyda'r cyhoedd, a diddordeb mewn iechyd neu ofal cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu rhagorol. | **CYFADRAN FFISEGWR CYSYLLTIOL**<br>www.fparcp.co.uk |
| **Ymarferwyr Gofal Llawfeddygol** | Cyflogir **YMARFERWYR GOFAL LLAWFEDDYGOL** fel aelodau o'r tîm llawfeddygol estynedig sy'n atebol i'r llawfeddyg ymgynghorol. Maent yn rhoi gofal mewn theatr lawfeddygol, ar wardiau ac mewn clinigau ac maent yn cael eu hyfforddi i wneud rhai triniaethau llawfeddygol dan oruchwyliaeth briodol. | Rhaid i ymgeiswyr fod yn weithiwr iechyd proffesiynol cymwys a chofrestredig, er enghraifft nyrs, sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu ymarferwr adran lawdriniaethau, sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Bydd arnynt angen o leiaf 18 mis o brofiad ar ôl cofrestru a'r gallu i astudio ar lefel 7 neu uwch (e.e. lefel Meistr). | Ar gyfer y rôl hon, bydd arnoch angen ymrwymiad i ofal cleifion a diogelwch cleifion, dealltwriaeth o dîm amlddisgyblaethol a rôl llawfeddygaeth sy'n newid, gallu o ran practis clinigol a llawfeddygol ac yn barod ar gyfer datblygiad addysgol a chlinigol. | **COLEG BRENHINOL Y LLAWFEDDYGON**<br>www.rcseng.ac.uk |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Bydwraig** | Mae **BYDWRAGEDD** yn helpu menywod beichiog a'u teuluoedd trwy gydol eu beichiogrwydd, geni'r babi ac ychydig ddyddiau cyntaf y baban newydd. Maent yn gweithio mewn ysbytai ac yn y gymuned ac maent yn cael eu hyfforddi i sicrhau bod pob mam yn cael y gofal a'r help y mae arni eu heisiau a'u hangen. | Gradd mewn bydwreigiaeth, ac yna cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, neu raglen hyfforddi 78 wythnos i nyrsys cofrestredig. Mae'r cymwysterau ar gyfer mynd ar gyrsiau yn amrywio. | Bydd angen i chi fod yn wrandäwr da, yn llawn cydymdeimlad heb fod yn feirniadol, gan fod bydwreigiaeth yn ymwneud cymaint â chefnogi'r fam newydd ag y mae am helpu i eni. Bydd angen i chi fod yn dawel pan fydd pawb o'ch cwmpas dan straen ac mae'n rhaid i chi fedru ysbrydoli ac annog. | **Y CYNGOR NYRSIO A BYDWREIGIAETH**<br>www.nmc-uk.org<br><br>**COLEG BRENHINOL Y BYDWRAGEDD**<br>www.rcm.org.uk |
| **Gweithiwr Cefnogi Mamolaeth** | Mae **GWEITHWYR CEFNOGI MAMOLAETH** yn cynorthwyo bydwragedd i ofalu am fenywod a babanod trwy'r cyfnodau allweddol, beichiogrwydd, geni a'r ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl y geni. | Nid oes unrhyw ofynion sylfaenol ar gyfer cymwysterau, ond bydd ar ymgeiswyr angen addysg gyffredinol dda. Gall ymgeiswyr llwyddiannus ymestyn eu rôl a'u cymwysterau gan ennill cyflog. | Bydd arnoch angen agwedd ofalgar a diddordeb mewn mamau a babanod newydd. | **COLEG BRENHINOL Y BYDWRAGEDD**<br>www.rcm.org.uk<br><br>**CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithiwr Cefnogi Nyrsio Gofal Iechyd** | Mae **GWEITHWYR CEFNOGI NYRSIO GOFAL IECHYD** yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig. Maent yn chwarae rôl hanfodol yn cefnogi cyflawni gofal wedi ei gynllunio. Bydd y rolau hyn i'w cael mewn ysbytai ac yn y gymuned. | Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond efallai y bydd cyflogwyr yn gofyn am rai TGAU gan gynnwys Saesneg a mathemateg (neu gyfatebol). Bydd dysgu yn y gwaith, sy'n addas i'ch rôl yn cael ei ddarparu. | Bydd angen i chi weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaeth, gan fedru dilyn cyfarwyddiadau yn effeithlon. Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i gadw cyfrinachedd yn hanfodol. | **DATBLYGU ADDYSG GIG CYMRU**<br>www.nwssp.wales.nhs.uk/datblygu-addysg<br><br>**CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Nyrs** | Yn cynnwys y pedwar maes cychwynnol mewn nyrsio: **NYRSIO OEDOLION, NYRSIO IECHYD MEDDWL, NYRSIO ANABLEDD DYSGU A NYRSIO PLANT.** Mae nyrsys yn gofalu am anghenion corfforol a meddyliol defnyddwyr y gwasanaeth yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Maent hefyd yn rhoi cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr defnyddwyr gwasanaeth. | Gradd gymeradwy neu raglen fynediad i raddedigion/Gradd Meistr mewn nyrsio, gan arwain at gymhwyster i ymgeisio am gael cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Fel arfer bydd angen i ymgeiswyr ddewis y maes o nyrsio y maent am weithio ynddo cyn dechrau hyfforddi. Mae'r gofynion mynediad yn amrywio o brifysgol i brifysgol. | Bydd arnoch angen dangos lefel uchel o broffesiynoldeb ac ymroddiad. Bydd arnoch angen gallu gweithio fel aelod effeithiol o dîm, bod â sgiliau trefniadol da a'r gallu i ddatrys problemau. Sgiliau cyfathrebu ac arsylwi da iawn yn hanfodol, gyda'r gallu i gadw'n dawel a meddwl yn glir mewn argyfwng a sefyllfaoedd anodd. Mae hyder wrth ddefnyddio technoleg hefyd yn fanteisiol. | **Y CYNGOR NYRSIO A BYDWREIGIAETH**<br>www.nmc-uk.org<br><br>**Y COLEG NYRSIO BRENHINOL**<br>www.rcn.org.uk |



*““Fe wnes i fynd i feddygaeth geriatrig ar ôl gwirioni ar ofalu am oedolion hŷn pan oeddwn yn intern. Felly roeddwn yn gwybod beth oedd o fy mlaen. Mae geriatreg wedi cynnig gyrfa i mi sydd wedi bod yn ddiddorol, amrywiol a hylaw.*

*Y peth sy'n rhoi'r mwynhad mwyaf yn y maes hwn yw gofalu am glaf sy'n gymhleth yn feddygol a gweithredu cynllun gofal sy'n gwirioneddol wella ei fywyd ef neu hi ac mae'n deimlad gwych. Mae hyn yn cynnwys problemau "meddygol" traddodiadol, fel stopio meddyginiaethau diangen neu niweidiol neu drefnu gofal gan yr arbenigwyr cywir, a phethau nad ydynt yn feddygol fel cysylltu'r cleifion â gwasanaethau cymdeithasol a chefnogaeth arall yn eu hardal a chael cyfraniad gan y tîm amlddisgyblaethol.*

*Y tri ansoddair nodweddiadol i ddisgrifio ymarferwr meddygol mewn Meddygaeth Geriatrig yw Gofalgar, Tosturiol ac Ymroddedig a phetai raid i mi ddechrau o'r dechrau eto fe fyddwn yn gwneud Meddygaeth Geriatrig eto."*

**DR KOUROSH SAHEBI: MEDDYG**

# THERAPÏAU SEICOLEGOL

Mae'r staff sy'n gweithio mewn therapïau seicolegol yn helpu pobl ymdopi â phroblemau mor amrywiol â chaethiwed i alcohol neu gyffuriau, anhwylderau bwyta, teulu yn chwalu neu brofedigaeth.

**Seicolegydd Ymarfer Cymwysedig** .................................................. 58

**Therapydd Seicolegol Dwys Iawn** .................................................. 58

# IECHYD Y CYHOEDD

Mae staff sy'n gweithio yn y maes iechyd y cyhoedd yn diogelu a gwella iechyd a llesiant y cyhoedd ac yn lleihau anghyfartaledd iechyd. Mewn rhai rolau, byddwch yn gweithio yn uniongyrchol gyda'r cyhoedd ac mewn rhai eraill gall y cyswllt fod yn achlysurol neu brin.

**Gweithiwr Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd**................................ 60

**Hyfforddwr Iechyd** .................................................................... 60

**Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd** ........................................................ 60

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Seicolegydd Ymarfer Cymwysedig** | Mae **SEICOLEGWYR YMARFER CYMWYSEDIG** mewn disgyblaethau Clinigol, Cynghori, Fforensig ac Iechyd yn defnyddio ymarfer ar sail tystiolaeth, yn gymysg â'u sgiliau rhyngbersonol i ymdrin â phroblemau wrth feddwl, emosiynau, ymddygiad a rhyngweithio cymdeithasol. Eu nod yw gwella lles ac ansawdd bywyd. Mae'r GIG yn cyflogi seicolegwyr mewn pedwar maes arbenigol: clinigol, fforensig, cynghori a seicoleg iechyd. | Rhaid i Seicolegwyr fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.<br><br>Gellir dod yn gymwys i gofrestru gyda'r HCPC trwy gwblhau rhaglen hyfforddi ôl raddedig wedi ei chymeradwyo gan yr HCPC yn yr arbenigedd perthnasol. | Bydd arnoch angen gallu rheoli gwybodaeth ansoddol a meintiol gymhleth a chyfathrebu yn dda mewn amgylchiadau anodd. Mae diddordeb mewn gweithio gyda phobl mewn gofid a'r gallu i wneud hynny yn hanfodol. | **CYMDEITHAS SEICOLEGWYR CLINIGOL - Y DEYRNAS UNEDIG**<br>www.acpuk.org.uk<br>**CYMDEITHAS SEICOLEGOL PRYDAIN**<br>www.bps.org.uk<br>**CYNGOR PROFFESIYNAU IECHYD A GOFAL**<br>www.hcpc-uk.org/cymru/ |
| **Therapydd Seicolegol Dwys Iawn** | Defnyddir y term **THERAPYDD SEICOLEGOL DWYS IAWN**, yng Nghymru fel term eang ar gyfer nifer o therapyddion sydd wedi eu hyfforddi'n llawn (h.y. cofrestredig ac achrededig). Gall hyn gynnwys therapyddion gwybyddol-ymddygiadol a seicotherapyddion fel seicotherapyddion teulu a systematig, therapyddion seicoddeinamig, therapyddion gwybyddol-ddadansoddol ac ati.<br><br>Maent yn gweithio gyda chleientiaid (oedolion a phlant) gydag amrywiaeth o broblemau cymhleth yn ymwneud â phryder, iselder, trawma, ymdeimlad o orfodaeth, anhwylderau bwyta, seicosis yn ogystal â phroblemau cyffuriau ac alcohol a phroblemau yn addasu i anawsterau iechyd. | Rhaid i therapyddion dwys iawn yng Nghymru fodloni meini prawf y Ganolfan Deallusrwydd y Gweithlu o leiaf:<br><br>• Wedi cwblhau 1 flwyddyn o hyfforddiant llawn amser (neu gyfatebol rhan-amser) mewn seicotherapi neu gynghori yn arwain at gymhwyster, ardystio neu achrediad a gydnabyddir gan gorff proffesiynol neu reoleiddiol perthnasol.<br><br>• Wedi cyrraedd lefel cymhwyster sy'n cyflawni gofynion y corff rheoleiddiol, sy'n achredu neu broffesiynol.<br><br>• Yn aelod o gorff proffesiynol neu reoleiddiol perthnasol, ac yn parhau i gyflawni unrhyw feini prawf achredu neu aelodaeth.<br><br>• Wedi cael y profiad therapi dan oruchwyliaeth angenrheidiol gan y corff rheoleiddiol neu broffesiynol yn cwmpasu asesu, ffurfio, ymgysylltu, datblygu'r berthynas therapiwtig, defnyddio ymyraethau therapiwtig perthnasol, gweithio ar y cyd â chleientiaid, a gweithio i ddod â'r therapi i ben. | Bydd eich nodweddion personol chi yn chwarae rhan bwysig yn yr hyfforddiant a'ch gwaith yn nes ymlaen. Bydd arnoch hefyd angen sgiliau cyfathrebu rhagorol a dymuniad i weithio yn glos gyda phobl, yn ogystal â diddordeb yn amgyffrediad ac ymddygiad pobl. | **CYMDEITHAS BRYDEINIG SEICOTHERAPÏAU YMDDYGIAD A GWYBYDDOL**<br>www.babcp.com/Default.aspx<br>**CYNGOR SEICOTHERAPI Y DEYRNAS UNEDIG**<br>www.psychotherapy.org.uk<br>**CYMDEITHAS Y SEICOTHERAPYDDION PLANT**<br>www.childpsychotherapy.org.uk<br>**CYNGOR SEICODDADANSODDOL PRYDAIN**<br>www.psychoanalytic-council.org |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| Gweithiwr Proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd | Mae **GWEITHWYR PROFFESIYNOL IECHYD YR AMGYLCHEDD** yn gwella iechyd a llesiant y cyhoedd trwy eu gwaith mewn meysydd fel llygredd sŵn ac amgylcheddol, diogelwch bwyd a hylendid, iechyd yn y gweithle a safonau tai. | Mae rolau gwahanol ar lefelau gwahanol. Er enghraifft, gall TGAU a phrofiad perthnasol arwain at rôl ar lefel mynediad (fel swyddog gorfodi). Mae'n ofynnol cael gradd wedi ei hachredu yn iechyd yr amgylchedd i weithio fel ymarferwr iechyd yr amgylchedd. | Bydd angen i chi fod yn hyblyg, yn ymwybodol o egwyddorion gofal cwsmeriaid, yn ystyriol a diplomataidd, yn gallu dadansoddi problemau a llunio argymhellion. | **SEFYDLIAD SIARTREDIG IECHYD YR AMGYLCHEDD (CIEH) CYMRU**<br>www.cieh-cymruwales.org |
| Hyfforddwr Iechyd | Mae **HYFFORDDWYR IECHYD** yn rhoi cefnogaeth ymarferol i'w cleientiaid i newid eu hymddygiad a chyflawni eu nodau iechyd. | Yr hyfforddiant cydnabyddedig ar gyfer hyfforddwyr iechyd yw'r Dystysgrif Lefel 3 City and Guilds i Hyfforddwyr Iechyd, y byddwch yn ei astudio fel hyfforddwr iechyd dan hyfforddiant. Gallwch ddilyn y cwrs hwn heb unrhyw gymwysterau blaenorol. | Bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu ar lafar ac ar bapur da, cydymdeimlad, parch, bod yn ystyriol, dull sy'n darbwyllo, yn cysuro ac yn cefnogi ac ysbrydoli, parch i gyfrinachedd y cleient a'r gallu i weithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm. | **CITY AND GUILDS**<br>www.cityandguilds.com<br><br>**HEALTH TRAINERS ENGLAND**<br>www.healthtrainersengland.com |
| Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd | Mae **YMARFERWYR IECHYD CYHOEDDUS** yn gweithio mewn llawer o fannau ac mewn llawer o feysydd o ran iechyd y cyhoedd. Gallant gefnogi rhaglenni ffordd o fyw iach, helpu unigolion a grwpiau i stopio ysmygu neu wneud mwy o ymarfer corff; gweithio ar raglenni imiwneiddio a sgrinio, neu arbenigo mewn diogelu iechyd. Mae rhai eraill yn gweithio ar yr ochr gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd y cyhoedd mewn llywodraeth leol a Iechyd Cyhoeddus Cymru. | Nid oes gofynion mynediad penodol i ddod yn ymarferwr iechyd y cyhoedd. Nid oes llwybrau hyfforddi clir ar gyfer llawer o'r rolau ac ar hyn o bryd, gwirfoddol yw cofrestru fel "ymarferwr" ar Gofrestr Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig (UKPHR). Mae'n hanfodol gwirio'r gofynion ar gyfer pob rôl. | Bydd arnoch angen sgiliau pobl sydd wedi datblygu'n dda, y gallu i roi gwerth ar amrywiaeth a gwahaniaeth, yn greadigol, ac yn gallu addasu, yn gallu dadansoddi a dehongli gwybodaeth, y gallu i greu deunyddiau marchnata, cyhoeddiadau ac adroddiadau a hyder wrth wneud argymhellion am y modd y gellid cyflawni gwasanaethau. | **UKPHR**<br>www.ukphr.org |



*"Pam mynd yn barafeddyg? Mae'r gwobrwyon sy'n rhan annatod o'r swydd yn ddiddiwedd, mae eich cydweithwyr fel teulu i chi, ac mae drysau cyffrous o ran datblygu eich gyrfa yn y dyfodol yn agor i chi. Heb amheuaeth, mynd yn barafeddyg oedd y penderfyniad gorau a wnes i erioed. Os ydych yn llawn cydymdeimlad, yn ymroddedig, yn barod i fynd y filltir ychwanegol ac am gael gyrfa sy'n llawn her, ewch yn barafeddyg. Fyddwch chi ddim yn difaru!"*

**JAMES DONOVAN: PARAFEDDYG**

*"Rwyf wedi rhoi 21 mlynedd o'm hoes i weithio i'r GIG. Fe gychwynnais ar yr ochr weinyddol yn 1997 ac rwyf hefyd wedi gweithio yn y theatr lawfeddygol, bod yn weithiwr cefnogi gofal iechyd, ac rwyf wedi cymhwyso yn nyrs. Ar hyn o bryd rwy'n barafeddyg dan hyfforddiant gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a dylwn gymhwyso eleni. Mae'r GIG yn sefydliad rhyfeddol i weithio iddo. Rwyf wedi cael llu o ffrindiau dros y blynyddoedd.*

*Rwy'n angerddol iawn am ofalu am bobl, a gofal argyfwng cyn cyrraedd yr ysbyty yw fy her fwyaf newydd a mwyaf cyffrous hyd yn hyn!"*

**JESSICA ROUSEN: NYRS A PHARAFEDDYG DAN HYFFORDDIANT**

# TÎM GOFAL IECHYD EHANGACH

Mae staff yn y tîm gofal iechyd ehangach yn darparu'r gwaith wrth gefn sydd bron rownd y cloc sydd ar bob sefydliad iechyd eu hangen i'w cadw i redeg. Mae gweithwyr cefnogi gofal iechyd yn darparu gwasanaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol i unigolion mewn amrywiaeth o leoliadau gofal. Maent yn cyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau wedi eu dirprwyo dan oruchwyliaeth briodol.

**Cadw Tŷ** .......... 64
**Clerc Ward** .......... 64
**Crefftwyr Medrus** .......... 64
**Cynorthwyydd Arlwyo** .......... 64
**Cynorthwyydd Golchdy** .......... 66
**Cynorthwyydd Personol** .......... 66
**Derbynnydd/Teleffonydd** .......... 66
**Garddwr** .......... 68
**Goruchwyliwr Cyfleusterau** .......... 68
**Gyrrwr** .......... 68
**Nyrs Feithrin** .......... 70
**Pensaer** .......... 70
**Porthor** .......... 70
**Rheolwr Arlwyo** .......... 72
**Staff Chwarae Iechyd** .......... 72
**Staff Cynnal a Chadw** .......... 72
**Staff Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS)** .......... 74
**Staff Storfeydd** .......... 74
**Ysgrifennydd Meddygol** .......... 74

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Cadw Tŷ** | Mae **STAFF CADW** TŶ (a elwir yn aml yn gynorthwywyr domestig) yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân ac yn chwarae rhan bwysig wrth reoli heintiau. | Hyfforddiant yn y swydd o ran defnyddio cynnyrch ac offer glanhau yn ddiogel. Mae angen safon dda o ran llythrennedd a rhifedd fel arfer. | Bydd angen i chi fod yn weithiwr caled, yn gydwybodol ac yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Clerc Ward** | Mae **CLERCOD WARDIAU** yn cadw gwaith papur a chofnodion cyfrifiadurol, ac yn ymdrin ag ymholiadau ffôn ar ward ysbyty. | Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ond efallai y bydd cyflogwyr yn gofyn am rai TGAU gan gynnwys Saesneg a mathemateg (neu gyfatebol). Bydd hyfforddiant yn y swydd yn cael ei roi. | Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i gadw cyfrinachedd yn hanfodol. Bydd angen i chi fod yn drefnus, a bod â lefel uchel o ran llythrennedd a rhifedd. Byddai sgiliau gweinyddu a chyfrifiadurol yn ddefnyddiol. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Crefftwyr Medrus** | Mae **CREFFTWYR MEDRUS** yn cynnwys seiri, trydanwyr, plymwyr, teilwyr a gosodwyr briciau. | Fel arfer bydd cyflogwyr yn gofyn am grefft benodol neu gymhwyster galwedigaethol, ond gall ymgeiswyr gael swyddi hefyd ar sail eu profiadau blaenorol neu allu profedig. Weithiau mae prentisiaethau mewn crefftau ar gael (gweler tudalen 9). | Bydd arnoch angen y sgiliau priodol i weithio yn eich maes dewisedig, a gallu gweithio i safon uchel yn gyson. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Cynorthwyydd Arlwyo** | MAE **CYNORTHWYWYR ARLWYO** yn rhan o dîm sy'n ymroddedig i sicrhau bod y bwyd a'r diodydd i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn faethlon ac apelgar. | Bydd gofynion y Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd yn amrywio, ond gall cwrs sylfaen mewn glendid bwyd fod yn fanteisiol. Mae angen safon dda o ran llythrennedd a rhifedd fel arfer. Weithiau mae prentisiaethau mewn rolau arlwyo a chysylltiedig ar gael. Gweler tudalen 9 am wybodaeth gyffredinol am chwilio ac ymgeisio am brentisiaethau. | Bydd angen i chi fedru gweithio fel rhan o dîm prysur mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym, bod â glendid personol rhagorol a dull cwrtais pan fyddwch yn dod i gysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth. | **CYMDEITHAS ARLWYWYR YSBYTY** www.hospitalcaterers.org |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Cynorthwyydd Golchdy** | Mae **CYNORTHWYWYR GOLCHDY Y**n sicrhau bod wardiau a theatrau yn cael digon o ddeunyddiau glân, gan gynnwys gynau a dillad gwelyau. Maent yn gweithredu cabanau stêm, yn defnyddio gweisg stêm a gwactod neu yn gorffen eitemau â llaw.. | Hyfforddiant mewnol. Dim gofynion mynediad ffurfiol. | Bydd angen i chi fod yn ffit yn gorfforol yn ogystal â bod â llygad fanwl. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Cynorthwywr Personol** | Mae **CYNORTHWYWYR PERSONOL** yn darparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol gynhwysfawr i staff uwch. | Gall gofynion cyflogwyr amrywio, ond mae'n rhaid i Gynorthwywyr Personol gael Saesneg llafar ac ar bapur da, yn ogystal â sgiliau teipio a llythrennedd cyfrifiadurol. | Bydd angen i chi fod yn drefnus, effeithlon a llawn ysgogiad. Bydd arnoch angen bod yn ddymunol, a sgiliau cyfathrebu rhagorol. Bydd angen i chi fod yn gyfrinachgar hefyd. | **CYMDEITHAS YR YSGRIFENYDDION MEDDYGOL, RHEOLWYR PRACTIS A DERBYNYDDION (AMSPAR)**<br>www.amspar.com<br><br>**CYMDEITHAS BRYDEINIG YSGRIFENYDDION MEDDYGOL**<br>www.bsmsa.org.uk |
| **Derbynnydd / Teleffonydd** | Mae **DERBYNYDDION A THELEFFONYDDION** yn ymdrin ag ymholiadau ffôn a wyneb yn wyneb ar draws amrywiaeth o sefydliadau gofal iechyd, gan ddefnyddio offer ffôn a chyfrifiadurol. | Rhoddir hyfforddiant yn y swydd fel arfer. Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ond gellid gofyn am beth profiad a sgiliau cyfrifiadurol. Gall cyflogwyr fod yn chwilio am addysg gyffredinol dda. | Fel y man cyswllt cyntaf yn y GIG, bydd angen i chi fedru cyfathrebu yn dda, gan gadw'n dawel a chlir wrth ymdrin â chleifion a pherthnasau a all fod mewn gofid. | **CYMDEITHAS YR YSGRIFENYDDION MEDDYGOL, RHEOLWYR PRACTIS A DERBYNYDDION (AMSPAR)**<br>www.amspar.com |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Garddwr** | Mae **GARDDWYR** yn gofalu am y planhigion, llwyni a lawntiau mewn sefydliadau gofal iechyd. | Bydd gan sefydliadau gwahanol wahanol ofynion mynediad. Os nad oes gan ymgeiswyr gymhwyster galwedigaethol perthnasol (e.e. garddwriaeth), efallai y byddant yn gallu cael swydd ar sail profiad neu allu profedig. Weithiau mae prentisiaethau ar gael. Gweler tudalen 9 am wybodaeth gyffredinol am chwilio ac ymgeisio am brentisiaethau. | Bydd angen i chi fwynhau gweithio yn yr awyr agored, bod yn frwdfrydig am blanhigion ac yn gallu gwneud gwaith corfforol. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Goruchwyliwr Cyfleusterau** | Mae **GORUCHWYLWYR** yn cefnogi eu cydweithwyr clinigol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael gofal mewn amgylchedd glân a diogel trwy gydlynu amrywiaeth o wasanaethau ward gan gynnwys: glanhau, arlwyo, clerigol a dillad gwelyau. | Nid oes gofynion mynediad, ond bydd gwybodaeth am wasanaethau cyfleusterau mewn lleoliad gofal iechyd yn fanteisiol, ynghyd â chymhwyster arwain tîm neu gymhwyster cyfatebol neu brofiad yn goruchwylio. | Bydd arnoch angen gweithio yn dda fel rhan o dîm. Bydd angen i chi oruchwylio staff a sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Gyrrwr** | Cyflogir **GYRWYR** mewn amrywiaeth o rolau ar draws gofal iechyd, yn y gwasanaeth ambiwlans nad yw'n argyfwng a Gwaed a Thrawsblannu'r GIG. Maent yn cludo cyflenwadau cleifion, samplau patholeg neu hyd yn oed organau i'w trawsblannu. | Trwydded yrru briodol, gan ddibynnu ar y math o gerbyd y mae'n ofynnol i ymgeiswyr ei yrru. | Rhaid i chi fod yn yrrwr cyfrifol, diogel, yn gallu cyfathrebu yn rhwydd â staff, cleifion ac eraill y byddwch yn cael cysylltiad â nhw, ac yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR** www.jobs.nhs.uk/index_cy.html *A* www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Nyrs Feithrin** | Mae **NYRSYS MEITHRIN** yn cefnogi gwasanaethau gofalu am blant ifanc a hŷn mewn ysbytai ac yn y gymuned, fel ward mamolaeth a Dechrau'n Deg. Gallant hefyd gael eu cyflogi mewn crèche GIG Cymru.<br><br>Yn ddibynnol ar y maes gwaith, gall nyrsys meithrin fod yn gyfrifol am ofal personol plant bychan iawn a phlant ifanc. Gallant fod yn gyfrifol am ddarparu rhaglenni rhianta, dan gyfarwyddyd ymwelydd iechyd. Gallant hefyd gynorthwyo i redeg grwpiau chwarae i gefnogi datblygiad y plant a'u hasesu. | Bydd arnoch angen lleiafswm o gymhwyster Lefel 3 gofal dysgu a datblygiad plant neu gyfatebol. | Rhaid i chi fod yn ofalgar, yn hwyliog a llawn cydymdeimlad.<br><br>Bydd angen i chi fod yn hawdd mynd atoch ac yn rhoi cysur, ac yn barod i weithio gyda rhieni a gofalwyr. Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o ddiogelu plant. Bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu rhagorol, gan gynnwys gwrando. Bydd arnoch angen sgiliau arsylwi da hefyd. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Pensaer** | MAE **PENSEIRI** yn dylunio a goruchwylio'r gwaith o adeiladu adeiladau GIG a'r gofod o'u cwmpas. Maent hefyd yn helpu i adfer ac ail ddefnyddio hen adeiladau, llawer ohonynt wedi eu rhestru. | Er mwyn dod yn bensaer cofrestredig (gyda'r Bwrdd Cofrestru Penseiri) bydd angen i chi ddilyn saith mlynedd o astudio ac ymarfer proffesiynol, gydag arholiad ar y diwedd. Mae bron yr holl bynciau a ddysgir yn yr ysgol yn berthnasol i bensaernïaeth, felly dewiswch y pynciau yr ydych gryfaf ynddynt. I hyfforddi, yn nodweddiadol bydd arnoch angen o leiaf ddau bwnc Lefel A neu un Lefel A a dau Lefel UG. Mae llawer o ysgolion pensaernïaeth hefyd yn derbyn Diploma Cenedlaethol BTEC a chymwysterau eraill ar Lefel 3. | Er nad yw'n angenrheidiol astudio celf, dylech fedru tynnu lluniau â llaw a gwneud modelau a chollage. Bydd arnoch angen diddordeb mewn dylunio ac adeiladu, a bod yn greadigol. | **SEFYDLIAD BRENHINOL PENSEIRI PRYDAIN**<br>www.architecture.com |
| **Porthor** | Mae **PORTHORION** yn chwarae rôl hanfodol wrth symud cleifion a nwyddau rhwng adrannau yn ddiogel a chyfforddus. Maent hefyd yn cludo offer cymhleth a gwerthfawr a all fod angen eu trin yn ofalus. | Rhoddir hyfforddiant yn y swydd. Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, er y gall rhai ysbytai mwy fod angen i'w porthorion fod â thrwydded yrru. | Bydd angen i chi fod yn ffit yn gorfforol ac yn gallu cerdded pellter mawr. Mae sgiliau cyfathrebu a dull cyfeillgar hefyd yn ddefnyddiol, gan y byddwch yn helpu cleifion o bob oed o gwmpas yr ysbyty. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |

| | Disgrifiad o'r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Rheolwr Arlwyo** | **RHEOLWYR ARLWYO** sy'n rhedeg adrannau arlwyo mewn sefydliadau GIG ac yn rheoli'r staff. Maent yn gyfrifol am ddarparu bwyd maethlon i gleifion a staff. | Gradd berthnasol, HND/BTEC neu gymhwyster cyfatebol gan y Sefydliad Lletygarwch. | Bydd angen i chi fod yn arweinydd tîm brwdfrydig a all ysgogi staff a rheoli cyllidebau. | **CYMDEITHAS ARLWYWYR YSBYTY**<br>www.hospitalcaterers.org<br><br>**SEFYDLIAD LLETYGARWCH**<br>www.instituteofhospitality.org |
| **Staff Chwarae Iechyd** | Mae **STAFF CHWARAE** yn trefnu gweithgareddau chwarae a chelf dyddiol yn ystafell chwarae'r ward neu wrth y gwely i helpu plant i gyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol a goresgyn pryder. Maent yn cefnogi teuluoedd ac yn cyfrannu at farnau clinigol trwy arsylwi ar chwarae. | Fel arfer bydd ar gynorthwywyr chwarae iechyd angen cymhwyster gofal plant proffesiynol ar lefel 3. Bydd angen i arbenigwr chwarae iechyd ar raddfa sylfaenol fod wedi dilyn cwrs sylfaen mewn arbenigedd chwarae gofal iechyd. Bydd profiad perthnasol yn un o'r gofynion yn aml. Fel arfer bydd staff chwarae uwch angen gradd sylfaenol mewn arbenigedd chwarae gofal iechyd, ac wedi cael hyfforddiant o ran diogelu plant. Efallai hefyd y bydd gofyn iddynt gael profiad perthnasol ar ôl cymhwyso. | Rhaid i chi fod yn gyfforddus a hyderus gyda phlant, a gallu creu amgylchedd braf a hwyliog, sy'n briodol i anghenion y plentyn unigol. | **YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG ARBENIGWYR CHWARAE GOFAL IECHYD**<br>www.hpset.org.uk<br><br>**CYMDEITHAS GENEDLAETHOL ARBENIGWYR CHWARAE IECHYD (NAHPS)**<br>www.nahps.org.uk |
| **Staff Cynnal a Chadw** | **STAFF CYNNAL A CHADW** sy'n gyfrifol am bob agwedd o gynnal a chadw adeiladau a thiroedd y GIG, ac maent yn cynnwys tirmyn/wragedd, peintwyr ac addurnwyr.. | Mae gofynion sefydliadau gofal iechyd yn amrywio. Efallai y bydd ar ymgeiswyr angen rhai cymwysterau academaidd neu gymwysterau crefft penodol fel saer, peintiwr ac addurnwr neu drydanwr, er enghraifft. Cysylltwch â chyflogwyr i gael gwybod am eu gofynion. Weithiau mae prentisiaethau rolau stadau a chynnal a chadw ar gael. Gweler tudalen 9 am wybodaeth gyffredinol am chwilio ac ymgeisio am brentisiaethau. | Bydd arnoch angen agwedd gydwybodol a gallu gweithio yn gyson i safon uchel. Bydd angen i chi fod yn ymarferol, gallu gweithio heb oruchwyliaeth neu fel rhan o dîm. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |

| | Disgrifiad o’r Gwaith | Isafswm Cymwysterau | Sgiliau/Nodweddion | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **Staff Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS)** | Staff **PALS** yw’r cyswllt cyntaf i gleifion, perthnasau a gofalwyr. Maent yn helpu i ateb unrhyw ymholiadau, pryderon, neu geisiadau am wybodaeth. Mae staff **PALS** yn gwrando ar adborth, awgrymiadau a phrofiadau ac yn sicrhau bod yr adborth yma yn cael ei gofnodi a’i roi i’r rhai sy’n dylunio a rheoli gwasanaethau. Unrhyw bryderon yn cael eu datrys mor gyflym â phosibl. | Efallai y bydd angen i rai staff PALS gael gradd neu gymhwyster ar lefel broffesiynol. Fel arfer bydd gan staff cefnogi PALS addysg gyffredinol dda a sgiliau gweinyddol. | Rhaid i chi fod yn gefnogol a rhoi cysur i gleifion. Bydd arnoch angen sgiliau cyfathrebu llafar ac ar bapur rhagorol a’r gallu i gadw cofnodion cryno a chywir. Efallai y bydd ar staff uwch angen sgiliau cyfweld, cyflwyno a rheoli pobl a’r gallu i weithio gydag uwch reolwyr a chlinigwyr. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Staff Storfeydd** | Mae **STAFF STORFEYDD** yn archebu, cynnal a chyflenwi cyflenwadau meddygol a rhai eraill, gan gadw trac ar archebion a stoc ar system gyfrifiadurol yn aml. | Rhoddir hyfforddiant yn y swydd ac efallai y bydd cyfle i weithio tuag at gymhwyster proffesiynol. Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol. | Bydd angen i chi fod yn llythrennog, yn dda gyda rhifau a bod â dull trefnus, gan y byddwch yn trin stoc drud. Mae sgiliau cyfrifiadurol yn fantais. | **CHWILIWCH AM SWYDDI GWAG AR**<br>www.jobs.nhs.uk/index_cy.html<br>*A*<br>www.wales.nhs.uk/gweithioigigcymru |
| **Ysgrifennydd Meddygol** | Mae **YSGRIFENYDDION MEDDYGOL** yn ymdrin â gohebiaeth ymgynghorwyr a meddygon teulu ac yn rhoi cefnogaeth ysgrifenyddol hanfodol. | Nid oes gofynion ffurfiol, ond mae’r rhan fwyaf o sefydliadau gofal iechyd yn gofyn am addysg gyffredinol dda a gall rhai ofyn am gymwysterau OCR (neu gyfatebol). Gall ymgeiswyr hefyd fedru gweithio tuag at gymhwyster mewn astudiaethau ysgrifenyddol meddygol trwy’r Gymdeithas Ysgrifenyddion Meddygol, Rheolwyr Practis a Derbynyddion neu Gymdeithas Brydeinig yr Ysgrifenyddion Meddygol. | Mae sgiliau cyfathrebu a chyfrifiadurol yn hanfodol. Bydd arnoch angen cywirdeb, gallu trefniadol a sgiliau cyfathrebu da. | **CYMDEITHAS YR YSGRIFENYDDION MEDDYGOL, RHEOLWYR PRACTIS A DERBYNYDDION (AMSPAR)**<br>www.amspar.com<br><br>**CYMDEITHAS BRYDEINIG YSGRIFENYDDION MEDDYGOL**<br>www.bsmsa.org.uk |

**Mae'r llyfr hwn ar gael yn Saesneg o www.nhswalescareers.com**

**This book is available in English from www.nhswalescareers.com**


www.gyrfaoeddgigcymru.com

nhswalescareers@wales.nhs.uk

www.facebook.com/nhswalescareers

www.twitter.com/nhswalescareers


GIG CYMRU NHS WALES